Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Model unigryw ar gyfer y gwasanaeth prawf yng Nghymru

## Dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

**Celia Netana, Jack Price, Helen Tilley ac Ioana Filipas**

Mawrth 2026

# Ein cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar amrywiaeth eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu syniadau newydd o ran llesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac mae'n defnyddio ei waith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU a Rhwydwaith Ymgysylltu â Pholisi'r Prifysgolion.

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth: **[www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)**

## Cyllidwyr craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Y cyd-destun polisi | 7 |
| Llywodraethu | 13 |
| Ffactorau llwyddiant | 16 |
| Crynodeb | 18 |
| Perthynol | 20 |
| Ffactorau llwyddiant | 23 |
| Crynodeb | 25 |
| Gweithredol | 28 |
| Ffactorau llwyddiant | 33 |
| Crynodeb | 35 |
| Casgliad | 37 |
| Rhestr argymhellion | 39 |
| Cyfeiriadau | 41 |
| Atodiad 1: Astudiaethau achos llywodraethu | 45 |
| Atodiad 2: Astudiaethau achos perthynol | 48 |

# Crynodeb


- Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer datganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid, yn unol ag argymhellion Comisiwn Thomas ac ymrwymiadau'r Blaid Lafur. I lywio'r broses hon, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru archwilio'r dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy'n cael ei defnyddio ym Manceinion Fwyaf ac mewn mannau eraill, i asesu ei photensial ar gyfer gweithredu'r gwasanaethau prawf yng Nghymru.
- Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar adolygiad llenyddiaeth; cyfweliadau ag ymarferwyr prawf, gweision sifil, academyddion a rhanddeiliaid yn y system gyfiawnder; gweithdy a digwyddiad bwrdd crwn.
- Yn gyffredinol, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnig mecanwaith pragmatig, anneddfwriaethol i gryfhau ymreolaeth leol, gwreiddio gweithio mewn partneriaeth, a darparu gwasanaethau prawf ymatebol.
- Bydd fframwaith llywodraethu clir gyda mecanweithiau galluogi cymesur yn bwysig i lwyddiant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Gallai'r heriau gynnwys trafodaethau cymhleth ynghylch rolau, cyfrifoldebau a strwythurau adrodd, ffiniau tameidiog ac amharodrwydd gwleidyddol i ddatganoli rheolaeth. Argymhellwyd model Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ailadroddol er mwyn gallu addasu a dysgu.
- O ran meithrin perthnasoedd, nodwyd bod ymddiriedaeth, nodau cyffredin, a chefnogaeth rhanddeiliaid yn hanfodol ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Ystyriwyd bod dechrau'n fach ac uwchraddio, gan ganolbwyntio ar garfannau neu themâu blaenoriaeth (er enghraifft tai, cyflogadwyedd), yn llwybr ymarferol at lwyddiant.
- Yn weithredol, defnyddiwyd Memoranda Cyd-ddealltwriaeth fel adnoddau rheoli contractau ac i alluogi darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r manteision allweddol yn cynnwys gwell parhad gofal, cydgasglu cyllid, a mwy o ymreolaeth i staff y gwasanaeth prawf arloesi'n lleol. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau o ran rhannu gwybodaeth, cymhlethdod caffael, a sefydlogrwydd y gweithlu. Argymhellwyd modelau cyllido hyblyg, strategaethau dros sawl blwyddyn, a systemau data gwell i gefnogi cynaliadwyedd ac ymgysylltu â darparwyr trydydd sector.
- Er ei fod yn gofyn am lawer o adnoddau a chynllunio a negodi gofalus, mae manteision posibl mwy o hyblygrwydd, rhannu risgiau, a chadernid i newid gwleidyddol yn ei wneud yn opsiwn hyfyw i Gymru, gyda manteision sylweddol yn bosibl.

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru, yn dilyn argymhellion Comisiwn Thomas (2019), yn ceisio datganoli cyfiawnder i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'n cynllunio ar gyfer dull graddol o ddatganoli'r sector, gan ddechrau gyda chyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae ethol llywodraeth Lafur ar lefel y DU wedi rhoi hwb ychwanegol i'r gwaith hwn, o ystyried yr argymhellion yn adroddiad terfynol Comisiwn y Blaid Lafur ar ddyfodol y DU (2022), a oedd yn nodi eu bod yn credu y dylai llywodraeth Lafur nesaf y DU ddechrau datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf (Y Blaid Lafur, 2022: 113). Roedd yn argymell y dylai'r Senedd a Llywodraeth Cymru gael pwerau newydd dros gyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau prawf. Roedd maniffesto'r Blaid Lafur ddwy flynedd yn ddiweddarach yn ymrwymo i adolygiad strategol o'r system brawf a fyddai'n cynnwys archwilio'r broses o ddatganoli gwasanaethau (y Blaid Lafur, 2024: 112).

Roedd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn cymeradwyo defnyddio dull gweithredu fesul cam, ac roedd yn argymell:

> **'Dylai Llywodraeth y DU gytuno i ddatganoli, yn ddeddfwriaethol ac yn weithredol, y cyfrifoldeb dros gyfiawnder a phlismona i'r Senedd ac i Lywodraeth Cymru... gan ddechrau gyda phlismona, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid, gyda'r cyllid angenrheidiol wedi'i sicrhau, a darpariaeth ar gyfer cyd-lywodraethu lle bo angen ar gyfer gweithrediadau effeithiol.' (Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, 2024: 7)**

I gefnogi ei pharatoadau, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn flaenorol i wneud gwaith ar y llwybrau a'r mecanweithiau y gellid eu defnyddio i ddatganoli'r gwasanaeth prawf, ac ar sut mae gwledydd eraill yn Ewrop wedi trefnu eu gwasanaethau prawf (Price, Notman a Tilley, 2024; Notman, Price a Tilley, 2024).

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gynnal ail gam o waith yn edrych yn fanylach ar ddull y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o ddarparu gwasanaethau prawf, fel sydd ar waith ym Manceinion Fwyaf ac mewn mannau eraill. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil ar ymarferoldeb a mecanweithiau sy'n gysylltiedig â'r dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o ddylunio a darparu gwasanaethau prawf, yn enwedig sut gallai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwyluso modelau cyd-gomisiynu a mathau eraill o weithio mewn partneriaeth yn lleol.

Defnyddiwyd amrywiaeth eang o ffynonellau a dulliau methodolegol wrth baratoi'r adroddiad hwn. Adolygwyd llenyddiaeth academaidd a llwyd, ac yna cynhaliwyd 17 o

gyfweliadau gydag ymarferwyr prawf, gweision sifil, academyddion a rhanddeiliaid yn y system gyfiawnder. Cynhaliwyd gweithdy gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr o Gymru yng nghynhadledd Canolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2025. Mewn digwyddiad bwrdd crwn ym mis Mehefin 2025, cafodd y canfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol eu rhoi mewn cyd-destun a'u datblygu ymhellach gan ymarferwyr, academyddion a rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae rhannau o'r adroddiad hwn hefyd wedi cael eu hadolygu gan arbenigwyr ac uwch ymarferwyr prawf, ond yr awduron sy'n gyfrifol am unrhyw wallau sy'n weddill.

Mae adran gyntaf yr adroddiad hwn yn cyfleu cyd-destun polisi presennol y Gwasanaeth Prawf ac arferion cydweithredol presennol yng Nghymru. Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil, wedi'u trefnu'n dair thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil fel ystyriaethau pwysig yn y broses Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: i) llywodraethu, gan gynnwys cyfrifoldebau a strwythurau adrodd, a materion sy'n ymwneud â systemau prawf lleol a chanolog; ii) meithrin perthnasoedd, gan gynnwys ymddiriedaeth, ymreolaeth a gweithio mewn partneriaeth; iii) gweithrediadau, gan gynnwys darparu gwasanaethau, diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, a materion cyllid a gweithlu lleol. Mae Atodiadau 1, 2 a 3 yn darparu cyd-destun ac astudiaethau achos ychwanegol a ddatblygwyd o'n hymchwil. Rydym yn darparu argymhellion ym mhob adran i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn llwyddiannus yng Nghymru; mae'r rhain yn cael eu hailadrodd ar ddiwedd yr adroddiad.

Mae pob adran yn cynnwys trafodaethau am heriau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â dulliau cyd-gomisiynu a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ynghyd â gwybodaeth ymarferol o brofiadau cyfranogwyr. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys enghreifftiau o ranbarthau Lloegr gan gynnwys Manceinion Fwyaf, yn ogystal ag yng nghyd-destun Cymru. Ochr yn ochr â'r argymhellion penodol, mae'r casgliad yn cyflwyno ystyriaethau allweddol pe bai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei negodi ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru.

Er bod y rhan fwyaf o'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn seiliedig ar gyd-gomisiynu gwasanaethau, nid oes cyfyngiad caeth ar ystyried y dull hwn, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a weithredir mewn gwirionedd yn fwy eang na chytundeb cyd-gomisiynu. Ni ddylid darllen yr adroddiad hwn fel un sy'n argymell dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, naill ai ynddo'i hun neu fel rhan o broses ddatganoli ehangach. Nid ydym yn gwneud hynny; yn hytrach, bwriedir iddo geisio deall a mynegi'r hyn y gellid ei gyflawni drwy'r dull hwn a beth allai'r heriau a'r cyfaddawdau fod.

# Y cyd-destun polisi

## Y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr

Gwasanaeth cyfiawnder troseddol statudol yng Nghymru a Lloegr yw'r Gwasanaeth Prawf, ac mae'n gyfrifol am reoli unigolion sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned neu sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa i'r gymuned ar ôl cwblhau'r rhan o'u dedfryd yn y carchar. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am reoli dedfrydau, darparu cyngor i lysoedd ar ddedfrydu, a darparu rhaglenni adsefydlu ledled Cymru a Lloegr (GOV.UK, dim dyddiad).

Nod y Gwasanaeth Prawf yw cefnogi pobl sy'n dychwelyd o'r ddalfa i addasu i fywyd yn y gymuned a lleihau'r risg o aildroseddu. Mae hefyd yn cefnogi dioddefwyr troseddau ac yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd, mae deuddeg rhanbarth prawf yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys un rhanbarth ar gyfer Cymru gyfan. Mae pob rhanbarth yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol. Darperir y Gwasanaeth Prawf drwy Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf isranbarthol, ac mae chwech ohonynt yn gweithredu yng Nghymru: Gogledd Cymru, Dyfed Powys, Abertawe Castell-nedd Port Talbot, Cwm Taf Morgannwg, Caerdydd a'r Fro, a Gwent (Y Gwasanaeth Prawf, 2021).

Mae'r sector prawf wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Ar ôl preifateiddio'n rhannol o dan y rhaglen Gweddnewid Adsefydlu yn 2014-2015, roedd troseddwyr risg uchel yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac roedd troseddwyr risg isel i ganolig yn cael eu rheoli gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, a oedd hefyd yn darparu gwasanaethau Drwy'r Gât. Cwmnïau preifat mawr fel Sodexo, Interserve ac MTC Novo oedd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn bennaf, er bod rhai sefydliadau statudol ac o'r sector gwirfoddol hefyd yn gysylltiedig (Senedd y DU, 2021).

Roedd diwygiadau Gweddnewid Adsefydlu, a gyflwynwyd gan y cyn Ysgrifennydd Cyfiawnder Chris Grayling, yn cael eu hystyried yn aflwyddiannus. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y model hwn wedi cael effaith negyddol ar ymataliad unigolion a ystyriwyd yn risg uchel (Kay, 2016). Bwriad preifateiddio rhannol hefyd oedd cynyddu arferion arloesol yn y sector, ond ni ddigwyddodd hyn ar y raddfa y gobeithiwyd amdani (Senedd y DU, 2021; Tidmarsh, 2020).

Yng Nghymru, canfu adolygiad cynnydd nad oedd y diwygiadau'n lleihau aildroseddu'n sylweddol a bod nifer y bobl a oedd yn cael eu galw'n ôl i'r carchar wedi cynyddu. Ystyriwyd bod gwasanaethau Drwy'r Gât hefyd yn aneffeithiol, a disgrifiwyd bod cydweithio â'r trydydd sector wedi bod yn dameidiog (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2019).

Oherwydd tystiolaeth bod Gweddnewid Adsefydlu wedi bod yn aflwyddiannus, cafodd y Gwasanaeth Prawf ei ail-wladoli a'i ailuno a'i roi o dan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn 2021.

Mae argyfwng parhaus yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn wedi cael ei nodweddu'n rhannol gan fwy o bobl yn cael eu dedfrydu, gostyngiad yn y defnydd o ddedfrydau cymunedol a dedfrydau digarchar, a bod yr ystâd carchardai heb gadw i fyny â'r galw (Gauke, 2025). Ers gwyro oddi wrth eu rôl hanesyddol fel swyddogion y llys, mae rhai'n teimlo bod llysoedd wedi colli hyder ym mherfformiad y Gwasanaeth Prawf, sydd wedi cael ei grybwyll fel rheswm dros y gostyngiad mewn dedfrydau digarchar (Rowland, 2024a).

Mae Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael â'r argyfwng yn y system cyfiawnder troseddol, ond bydd rhai diwygiadau arfaethedig yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff y gwasanaeth prawf. Er enghraifft, nod y Bil Dedfrydu (2025) yw dargyfeirio troseddwyr o'r carchar drwy fentro yn erbyn dedfrydau byr o garchar (a thrwy hynny leihau problemau o ran capasiti yn y system garchardai), ond disgwylir iddo greu cynnydd sylweddol mewn llwyth achosion a goblygiadau capasiti cyfatebol i staff y gwasanaeth prawf. Er bod Adolygiad Gauke (2025) ac Adolygiad Leveson (2025) yn galw am fuddsoddiad mewn gwasanaethau adsefydlu a'r angen am arloesi i ddatrys problemau, bydd pwysau ychwanegol yn dal i gael ei roi ar y Gwasanaeth Prawf yn y tymor byr.

Mae hyn yn arbennig o broblemus gan fod tystiolaeth hefyd bod y Gwasanaeth Prawf dan ormod o bwysau, a hynny ers cryn amser, a bod problemau sylweddol o ran capasiti a llwyth achosion (Rowland, 2024b). Ar ben hynny, dywedir bod newidiadau aml yn y sector ac effaith y newidiadau hynny ar weithlu'r gwasanaeth prawf wedi arwain at 'flinder newid'. Disgrifiodd un cyfranogwr yn yr astudiaeth hon gyflymder a graddfa'r newidiadau hyn, ochr yn ochr â phwysau eraill yn y system, fel 'gorfod neidio o un argyfwng i'r llall' (unigolyn a gafodd ei gyfweld). Ar ben hynny, mae rhwystredigaeth gyda gwasanaethau'n methu diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a llwythi gwaith trwm wedi cael effaith negyddol ar staff ac wedi ysgogi galwadau i wneud pethau'n wahanol, yn enwedig o ran gwasanaethau a gomisiynir, er mwyn lleihau aildroseddu a gwella'r gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd y penderfyniad i ddiddymu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2028 hefyd yn newid trefniadau llywodraethu'r system cyfiawnder troseddol (y Swyddfa Gartref a Mahmood, 2025).[1]

Er bod Llywodraeth y DU yn dal i ganolbwyntio ar ddatrys yr argyfwng uniongyrchol yn y sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys problemau gyda'r Gwasanaeth Prawf,


[1] Yn Lloegr, bydd meiri etholedig yn ysgwyddo cyfrifoldeb Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Lle nad oes meiri etholedig ar hyn o bryd, bydd arweinwyr cynghorau lleol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Nid yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Cymru wedi'u cadarnhau ond 'bydd amgylchiadau unigryw trefniadau llywodraeth leol datganoledig yng Nghymru yn cael eu hystyried' (Y Swyddfa Gartref a Mahmood, 2025).

dywedodd yr Arglwydd Timpson wrth y Senedd ym mis Gorffennaf 2025 y gellid ystyried datganoli a/neu symud i fodel cyd-gomisiynu yn y dyfodol (Yr Arglwydd Timpson, 2025). Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i archwilio cyfrifoldebau ailstrwythuro yn y system cyfiawnder ieuenctid ac i gymryd rhan mewn trafodaethau ar y posibilrwydd o fabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar brawf (Irranca-Davies, 2025).

## Fframwaith newydd ar gyfer cydweithredu

Datblygwyd Model Gweithredu Targed ar ôl ailuno, yn rhannol i gefnogi gwaith partneriaeth lleol mwy effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau prawf (HMPPS, 2021). Nodir meysydd i'w hadolygu a'u datblygu ar gyfer galluogi modelau comisiynu yn Ffigur 1.

### Ffigur 1: Meysydd modelau comisiynu i'w hadolygu a'u datblygu




Ffynonellau: Wedi'i ail-lunio gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2020: 53)

O dan y Model Gweithredu Targed, Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr sy'n gyfrifol yn bennaf am gomisiynu a darparu gwasanaethau ar lefel leol, gyda'r nod o ddatblygu llinell atebolrwydd glir ac arweinyddiaeth prawf strategol ym mhob un o'r 12 rhanbarth. Mae cyd-gomisiynu a gweithio mewn partneriaeth yn elfennau allweddol o'r model hwn, gyda'r nod o ddefnyddio tystiolaeth i lywio blaenoriaethau ac i wella gwasanaethau, gan barhau i gyd-fynd â strategaeth ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

Er mwyn gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chaffael gwasanaethau, datblygodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Fframwaith Dynamig y Gwasanaeth Prawf (Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EF, 2020). Fe'i cynlluniwyd i weithredu ar lefelau rhanbarthol a lleol i ymateb i angen, gan ganiatáu i ystod eang o ddarparwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ymuno ar unrhyw adeg. Ystyriwyd mynediad gwell i ddarparwyr llai a mwy arbenigol hefyd o dan y fframwaith hwn drwy geisio lleihau baich gweinyddol caffael a galluogi darparu gwasanaethau mwy hyblyg.

Nid yw defnyddio'r Fframwaith Dynamig yn orfodol, a gall rhanbarthau ddewis a ydynt am ei ddefnyddio i nodi darparwyr gwasanaeth penodol ai peidio. Mae enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth leol wrth ddarparu gwasanaethau prawf nad ydynt wedi defnyddio'r Fframwaith Dynamig, fel Canolfannau Llesiant yng Nghaerdydd (Grand Avenues) sy'n rhoi mynediad i fannau cymunedol at wahanol wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau llesiant, cymorth llety, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd a chymorth chwilio am waith. Mewn achosion eraill, gellid gwneud trefniadau gyda darparwyr nad ydynt yn ddarparwyr Fframwaith Dynamig ar sail anffurfiol (h.y. heb eu comisiynu) lle teimlir y gallant gynnig gwell darpariaeth gwasanaeth ar gyfer anghenion unigolyn penodol. Efallai na fydd ardaloedd eraill yn gallu defnyddio'r Fframwaith Dynamig oherwydd bod darpariaeth gyfyngedig neu ddim darpariaeth o gwbl ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

## Arferion cydweithredol presennol yng Nghymru

Nid datblygiad diweddar yw'r newid tuag at waith partneriaeth mwy lleol yn y sector cyfiawnder yng Nghymru. Rhagwelwyd gweithio mewn partneriaeth rhwng y llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, ac asiantaethau'r trydydd sector a'r sector preifat, yn ogystal â chymunedau, drwy ddull amlasiantaethol cydweithredol ac integredig. Roedd hyn yn cynnwys mentrau fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru, a sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010; Llywodraeth Cymru, 2017a). Yn fwy diweddar, ystyrir bod cyd-gomisiynu a gweithio mewn partneriaeth yn fecanweithiau a all gefnogi'r newid tuag at system brawf ddatganoledig (Llywodraeth Cymru, 2017b).

Mae gwasanaethau prawf eisoes yn rhan o drefniadau partneriaeth statudol, fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ochr yn ochr â heddluoedd, byrddau iechyd, gwasanaethau tân ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Gwahoddir cynrychiolwyr y gwasanaeth prawf hefyd i ddod i gyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF hefyd yn cynnal Fforwm Cydweithredu a Chomisiynu; gan ddod â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Llywodraeth Cymru, pedair Swyddfa'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a sefydliadau'r trydydd sector, fel Clinks, at ei gilydd. Nod hyn yw darparu lle ar gyfer

cael trafodaeth anffurfiol rhwng partneriaid cyd-gomisiynu a'r trydydd sector i nodi heriau, archwilio cyfleoedd a chyd-ddylunio bwriadau comisiynu.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau presennol yn ymddangos yn gymhleth, ac nid ydynt bob amser yn effeithiol. Canfu Swyddfa Archwilio Cymru (2016) heriau o ran llywodraethu a chydlynu cyfrifoldeb, yn enwedig gyda threfniadau datganoli a phartneriaeth y mae'n rhaid iddynt weithredu ar draws Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Roedd gwrthdaro hefyd yn gysylltiedig ag effaith mesurau cyni a threfniadau partneriaeth cymhleth, yn enwedig mewn perthynas â llywodraethu ac atebolrwydd.

Y tu hwnt i drefniadau ffurfiol a statudol, nododd ymarferwyr o rannau eraill o'r DU fod Cymru eisoes yn cael ei chydnabod am arloesi ym maes prawf, yn enwedig o ran cyd-gomisiynu a gweithio mewn partneriaeth. Mae dulliau yr ystyriwyd eu bod yn effeithiol yn cynnwys comisiynu gan gynghreiriau. Dyma lle mae'r gwasanaeth prawf, Byrddau Cynllunio Ardal, gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi dod at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau mynediad agored ar draws gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chyfiawnder troseddol gan ddefnyddio cytundebau cydweithio. Mae enghreifftiau hefyd fel y Glasbrint Cyfiawnder Menywod a'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Plismona yng Nghymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid yn y trydydd sector (Llywodraeth Cymru, 2019).[2] Mae'r gwasanaethau hyn yn dangos bod cyd-gomisiynu, perchnogaeth a darpariaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU eisoes ar waith mewn rhannau o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru er nad oes fframwaith Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol.

Mae'r dulliau hyn o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys nifer o sefydliadau yn cronni adnoddau ac yn gosod nodau ac uchelgeisiau cyffredin, ac mae ganddynt ddibenion tebyg i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Disgrifiwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan un unigolyn a gafodd ei gyfweld fel fersiwn gytundebol fwy ffurfiol o gydweithrediadau presennol, yn enwedig lle'r oedd arian yn cael ei ddarparu o un asiantaeth i'r llall (er enghraifft, o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF i Lywodraeth Cymru).

## Yr angen i wneud pethau'n wahanol

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EF ei hadroddiad arolygu cenedlaethol yn archwilio effeithiolrwydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, a ddaeth i'r casgliad nad yw'r Gwasanaeth Prawf wedi'i arfogi'n ddigonol i ddarparu

[2] Fodd bynnag, mae uchelgais y Glasbrint i sefydlu canolfan breswyl i fenywod i gyflwyno dewis arall yn lle cyfnodau byr yn y ddalfa wedi bod yn broblemus, gan gwestiynu effeithiolrwydd y glasbrint (cyfathrebu drwy e-bost, 2025).

gwasanaethau i safon dda (Arolygiaeth Prawf EF, 2025; Webster, 2025).[3] Ar ben hynny, mae cyflymder y newid a'r cynnydd mewn cyfrifoldeb yn y gwasanaeth wedi creu'r hyn mae Millings et al. (2025) yn ei ddisgrifio fel bregusrwydd gweithredol mewn gweithlu sydd wedi'i orlwytho. Mae hyn wedi cyfrannu at gymhelliant i ddiwygio, yn enwedig galwadau am fwy o weithio mewn partneriaeth ar lefel leol a mwy o ymreolaeth leol dros gyllidebau, sy'n cael eu hystyried yn egwyddorion allweddol ar gyfer diwygio (Redgrave, Tipple a Mulheirn, 2019).

Mae undebau llafur sy'n cynrychioli staff y gwasanaeth prawf, fel Napo, o blaid datganoli'r gwasanaeth prawf yng Nghymru (Napo, 2023). Gallai datganoli fod yn gyfle i ymdrin â'r gwasanaeth prawf mewn ffordd wahanol, i fynd i'r afael â throseddu, lleihau aildroseddu a lleddfu'r pwysau ar y system gyfiawnder yn ogystal â chysoni'n fwy effeithiol â chyfiawnder cymdeithasol a gwasanaethau eraill fel tai, iechyd ac addysg.

[3] Mae Unedau Cyflawni’r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru wedi cael eu harolygu ers cyhoeddi'r adroddiad hwn.

# Llywodraethu

## Argymhellion

- Sefydlu fframwaith llywodraethu clir gyda rolau a chyfrifoldebau diffiniedig yn gynnar yn y broses ddatblygu drwy drafodaeth dryloyw, y gellir ei ailadrodd ar sail dysgu wrth i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei roi ar waith.
- Dylai mecanweithiau llywodraethu fod yn gymesur â'r partneriaethau, y dulliau gweithredu a'r canlyniadau a ddymunir, a'u galluogi. Pan fydd y mecanweithiau hyn ar waith, dylid eu profi a'u haddasu lle bo angen i sicrhau eu bod yn cyflawni'r nod hwn.
- Ymgorffori gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â blaenoriaethau a gofynion y gwasanaeth. Adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus presennol a chynnwys partneriaid statudol fel yr heddlu, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ochr yn ochr â darparwyr trydydd sector a phobl sydd â phrofiad bywyd.
- Meithrin cydbwysedd rhwng goruchwyliaeth weithredol genedlaethol ac ymreolaeth leol, gan gydnabod y bydd angen cydbwyso cysondeb cenedlaethol â hyblygrwydd i ddiwallu anghenion rhanbarthol a gwledig.
- Sicrhau bod lleisiau pawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys dioddefwyr a phobl ar brawf, yn cael eu clywed.
- Dylai llywodraethu ar lefel genedlaethol gynnwys y llofnodwyr sy'n angenrheidiol ar gyfer diwygiadau i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau partneriaeth, gydag ymarferwyr prawf yn ymddiried mewn awdurdodau dirprwyedig a llofnodwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Mae'r adran hon yn edrych ar brofiadau a chanfyddiadau ymarferwyr prawf sydd â phrofiad ymarferol o ddull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chyd-gomisiynu yn y gwasanaethau prawf. Er bod Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn symlach ac yn gyflymach i'w cyflawni nag opsiynau datganoli sy'n gofyn am newidiadau mewn deddfwriaeth, maen nhw'n dal i ofyn am lawer iawn o waith ac, ar sail profiadau rhai cyfranogwyr, gall gymryd blynyddoedd i'w datblygu. Mae llawer o hyn yn ymwneud â llywodraethu, yn enwedig cytuno ar rolau a chyfrifoldebau sefydliadau partner. Roedd rhai, gan gynnwys yr enghraifft yma o Fanceinion Fwyaf, yn disgrifio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel adnodd strategol i ddatblygu'r berthynas i fod yn fwy o bartneriaeth.

> **'Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fwy fel cytundeb strategol na dogfen gyfreithiol. Mae'n ddatganiad cyhoeddus ynghylch**

**partneriaeth, er bod ganddo rai dibenion cyfreithiol.' (Ymarferydd prawf)**

Mae datblygiad Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Manceinion Fwyaf a sut mae wedi galluogi gweithio mewn partneriaeth yn cael eu hystyried yn Atodiad 1.

## Rheoli trafodaethau ac ystyriaethau gwleidyddol

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod camau negodi a datblygu cynnar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn heriol, yn enwedig ar faterion sylfaenol fel cytuno ar rolau a chyfrifoldebau allweddol a sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid perthnasol sedd wrth y bwrdd negodi. Roedd penderfynu ar arweinyddiaeth a llofnodwyr yn hollbwysig, gyda llawer o'r cymhlethdodau'n gysylltiedig â threfniadau llywodraethu tameidiog sy'n gorgyffwrdd. Yn benodol, gall gweithio ar draws nifer o ffiniau awdurdodau lleol wneud trafodaethau'n gymhleth oherwydd gwahanol ffiniau gweinyddol, y cyfeirir atynt gan gyfranogwyr fel ymylon garw ac artiffisial. Gall hyn wneud trafodaethau'n llafurus:

**'Mae 32 o sgyrsiau gwahanol y mae angen i ni geisio eu cael...mae pob llwybr gwahanol wedi'i strwythuro'n wahanol...mae pob sefydliad wedi'i strwythuro'n wahanol.' (Ymarferydd prawf)**

Nodwyd heriau gwleidyddol wrth ddatblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a gweithio mewn partneriaeth. Yn benodol, nododd y cyfranogwyr amharodrwydd y llywodraeth ganolog i ollwng gafael ar reolaeth. Er gwaethaf y gefnogaeth gan lawer o ymarferwyr ac undebau prawf, roedd llawer yn credu nad oedd awydd gwirioneddol yn y llywodraeth ganolog i ddatganoli'r gwasanaeth prawf yn ystyrlon. Teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod hyn yn bennaf oherwydd amharodrwydd i ildio cyfrifoldebau cyllidebol ochr yn ochr â diffyg diddordeb cyffredinol mewn datganoli gwasanaethau prawf.

Roedd natur wleidyddol rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael ei hystyried yn her ar gyfer datblygu a chyd-gomisiynu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, oherwydd newidiadau cyson mewn arweinyddiaeth a natur pennu blaenoriaethau. Er y bydd hyn yn newid wrth i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gael eu diddymu cyn bo hir, mae'r rhai a ddaw yn eu lle hefyd yn debygol o ddarparu mewnbwn gwleidyddol.

Gall gwahaniaethau gwleidyddol rhwng awdurdodau lleol hefyd fod yn rhwystr sylweddol i ddull gweithredu cydlynol, fel symud tuag at Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn rhanbarthau prawf. Er enghraifft, ar faterion fel tai, nid yw blaenoriaethau gwleidyddol bob amser yn cyd-fynd ag anghenion gwasanaethau prawf a defnyddwyr gwasanaethau.

**'Nid oes barn gyffredin ar draws awdurdodau lleol. Mewn gwirionedd, mae'r gwrthwyneb yn aml yn wir, yn dibynnu ar wleidyddiaeth yr awdurdod lleol hwnnw... Mae cael awdurdodau lleol i gyfarfod â ni, i**

**ymuno â ni... gwleidyddiaeth sy'n gyfrifol am lawer o hyn.' (Ymarferydd prawf)**

## Galluogi modelau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac darparu gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu ar y cyd, roedd cyfranogwyr yn cydnabod manteision a chyfleoedd dull gweithredu mwy lleol ar sail eu profiadau gwaith eu hunain o ddefnyddio dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chyd-gomisiynu. Roedd y model hwn yn aml yn cael ei weld fel ffordd o fynd i'r afael â chyfyngiadau canfyddedig y system ganolog bresennol, gan alluogi dull comisiynu sy'n canolbwyntio ar atebion ac sy'n fwy hyblyg.

Ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn fwy lleol hefyd yn ffordd fwy ystwyth ac ymatebol o ddarparu gwasanaethau prawf. Mynegodd ymarferwyr eu bod yn ffafrio gweithio mewn partneriaeth yn fwy lleol dros y system ganolog bresennol. Roedd y manteision allweddol yn cynnwys gallu gweithio'n fwy annibynnol, gweithio'n arloesol a gweithredu'n fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr gwasanaeth ar sail barn broffesiynol staff y gwasanaeth prawf.

**'...bydd y manteision yn cynyddu po fwyaf y gall y comisiynu fod yn lleol iawn ac yn arloesol iawn ac yn hyblyg iawn.' (Cynrychiolydd undeb)**

**'Yn aml, dydyn ni ddim yn ddigon ystwyth i allu ymateb i gyfleoedd cyllido felly rydyn ni'n colli allan. Rydw i'n teimlo ein bod ni'n colli llawer o gyfleoedd i gyd-gomisiynu oherwydd amserlenni.' (Ymarferydd prawf)**

Ystyriwyd manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth hefyd, yn enwedig dileu rhwystrau artiffisial rhwng gwasanaethau, sy'n gallu arwain at system gymorth fwy integredig a gwneud defnyddio gwasanaethau'n broses haws i unigolion agored i niwed sydd ag anghenion cymhleth. Trafodir y meysydd hyn yn fanylach isod.

Gall manteision cymdeithasol ehangach datganoli'r gwasanaeth prawf gynnwys arbedion cost sylweddol ar draws nifer o wasanaethau, cyfraddau aildroseddu is drwy ymyriadau mwy effeithiol, canlyniadau gwell i blant troseddwyr a manteision ariannol a chymdeithasol hirdymor, yn enwedig i droseddwyr ifanc rhwng 18 a 24 oed. Soniodd y cyfranogwyr hefyd y gellid sicrhau gostyngiad posibl yn nifer y bobl sy'n mynd i'r carchar drwy reoli'r gymuned yn well.

# Ffactorau llwyddiant

Ar sail yr ymchwil rydym wedi'i chynnal, rydym wedi nodi ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer llywodraethu mewn dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau a sicrhau bod goruchwyliaeth genedlaethol yn adlewyrchu anghenion lleol a rhanbarthol. Ystyriwyd bod fframwaith llywodraethu sy'n mynd i'r afael â chymhlethdodau'r ymylon garw rhwng meysydd datganoledig a meysydd heb eu datganoli, fel plismona, a'r gwahanol ffiniau cyfrifoldeb rhwng sefydliadau cyhoeddus yn allweddol i ddull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fod yn llwyddiannus yng Nghymru. Roedd strwythurau adrodd, ynghyd â nodweddion timau arwain a llywodraethu, hefyd yn elfennau pwysig o ddull gweithredu o'r fath. Mae angen llywodraethu gwasanaethau prawf yn gymesur ac yn briodol, gan gynnwys ystyried sefyllfa a statws yr awdurdodau dirprwyedig a llofnodwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ofalus. Dylai ymarferwyr prawf ymddiried yn y rhain, sy’n cael eu trafod isod yn yr adran ar feithrin perthnasoedd.

## Rolau a chyfrifoldebau

Dylid nodi fframwaith llywodraethu clir gyda rolau a chyfrifoldebau diffiniedig yn gynnar. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion a nodwyd ar ymylon garw meysydd datganoledig a heb eu datganoli, yn ogystal â ffiniau gwahanol gwasanaethau cyhoeddus fel byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, a oedd yn gwneud llywodraethu'n gymhleth ac a oedd mewn perygl o wrthdaro o ran blaenoriaethau. Dylai llywodraethu ar lefel genedlaethol gynnwys y llofnodwyr sy'n angenrheidiol ar gyfer diwygiadau i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau partneriaeth. Dylai llywodraethu gynnwys partneriaid statudol fel yr heddlu, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn ogystal â darparwyr y trydydd sector a phobl sydd â phrofiad bywyd. Dylai fod rôl hefyd i'r llysoedd a all chwarae rhan hollbwysig, er enghraifft drwy gynyddu'r defnydd o ddedfrydau cymunedol os oes mwy o hyder yn y gwasanaeth prawf. Dylai adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus presennol yn hytrach na theimlo'r angen i greu rhai newydd.

Dylid profi trefniadau llywodraethu o ran eu gallu i alluogi gwell gwasanaethau, gan ganolbwyntio'n gryf ar ganlyniadau a chasglu tystiolaeth yn barhaus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Ystyriwyd bod data cyfiawnder troseddol, blaenoriaethau lleol ac ymchwil sy'n benodol i Gymru yn hanfodol i lywio strategaeth a darpariaeth. Ar ben hynny, mae datblygu seilwaith rhannu gwybodaeth; gan gynnwys fframweithiau cyfreithiol, adnoddau dynol a TG rhwng sefydliadau partner, yn hanfodol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol. Bydd hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol gan bob asiantaeth, gan fod rolau presennol, mecanweithiau

cydweithio a seilwaith yn aml dan ormod o bwysau.[4] Byddai trefniadau llwyddiannus yn defnyddio'r fframwaith llywodraethu i alluogi gweithio mewn partneriaeth drwy gysoni canlyniadau a gwerthoedd yn gynnar yn y broses ddatblygu, yn hytrach nag ychwanegu gwrthdaro at y system.

## Goruchwyliaeth a lleoliaeth

Mae goruchwyliaeth eang (nid gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd) ar lefel genedlaethol gydag anghenion mwy lleol penodol o lefel lywodraethu fwy rhanbarthol yn bwysig. Roedd cyfranogwyr yr astudiaeth yng Nghymru yn credu y dylai llywodraethu ganiatáu ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau'n lleol, gyda chanlyniadau cenedlaethol yn llywio gweithredu lleol. Dylai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ddatblygu fframweithiau cyd-gomisiynu sy'n parchu anghenion lleol ar yr un pryd â pharhau i gyd-fynd â strategaethau cenedlaethol.

Ystyriwyd bod cyd-destun, gan gynnwys tirweddau daearyddol a gwleidyddol yng Nghymru, yn bwysig. Roedd cydbwysedd rhwng goruchwyliaeth genedlaethol ac ymreolaeth leol yn cael ei ystyried yn ffactor llwyddiant allweddol, gan sicrhau bod lleisiau lleol, gan gynnwys lleisiau dioddefwyr a throseddwyr, yn cael eu cynrychioli. Ystyriwyd hefyd ei bod yn hanfodol sicrhau bod gwahanol rannau o Gymru yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion lleol, gyda chomisiynu a chyd-gomisiynu mewn ardaloedd gwledig yn arbennig o heriol. Fodd bynnag, ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig nad oedd lleoliaeth yn arwain at anghysondebau o ran ansawdd gwasanaethau na blaenoriaethau.

Myfyriodd y cyfranogwyr ar raddfa a ffiniau priodol strwythurau llywodraethu a'u cyfrifoldebau. Roedd y safbwyntiau'n amrywio o'r ffaith bod gan y gwasanaeth prawf ei strwythur llywodraethu ei hun sydd wedi'i fodelu ar gyrff presennol, i oruchwyliaeth strategol yn cael ei darparu gan strwythurau presennol.

Un fantais bosibl rhoi ei strwythur llywodraethu ei hun i'r gwasanaeth prawf yw'r cynnydd yn atebolrwydd ei arweinyddiaeth. Roedd yr opsiynau a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau'n cynnwys sefydlu bwrdd prawf cenedlaethol wedi'i fodelu ar y Bwrdd Partneriaeth Plismona neu Banel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, a oedd yn cynnwys cyfranogiad llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner eraill. Yn gyffredinol, roedd yn well cael uned lai a mwy o leoliaeth na'r hyn a welir ar hyn o bryd o dan y system ganolog. Roedd y Glasbrint Cyfiawnder Menywod a'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2019) yn cael eu hystyried yn fodelau defnyddiol, ond gyda ffrydiau mwy lleol a chyfrifoldebau ar y cyd. Fodd

[4] Gellid dysgu o gydweithrediadau presennol fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i weld sut mae'r grwpiau hyn yn rheoli'r baich gweinyddol ychwanegol, a beth allai fod ei angen i wneud hyn yn haws ei reoli.

bynnag, dylid nodi nad yw'r Glasbrint wedi bod yn llwyddiannus yn ei nod o leihau nifer y menywod ar ddedfrydau byr o garchar (cyfathrebu drwy e-bost, 2025).

Fel arall, ystyriwyd bod corff llywodraethu cenedlaethol, fel Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, yn addas i ddarparu goruchwyliaeth strategol a sicrhau tryloywder ac osgoi dyblygu. Trafodwyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac Unedau Cyflawni Prawf, ond nid oeddent o reidrwydd yn cael eu ffafrio, fel cyrff llywodraethu lleol posibl. Ystyriwyd bod ardaloedd presennol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn rhy fawr ac mewn perygl o fod heb gydlyniant oherwydd gwahaniaethau mewn blaenoriaethau gwleidyddol.

# Crynodeb

Mae'r gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at wersi y gellid eu teilwra i helpu i lywio penderfyniadau yng Nghymru. Mae ein hargymhellion uchod yn nodi camau gweithredu penodol a fydd yn hyrwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth llwyddiannus, sy'n cael eu harchwilio'n fanylach isod.

**Gall Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ailadroddol gyda fframwaith llywodraethu clir a chymesur** helpu i adeiladu ar yr hyn a ddysgir ac addasu i anghenion sy'n newid. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer dysgu wrth ei roi ar waith, ac yn sicrhau y gellir gwneud addasiadau i ddelio â heriau annisgwyl a allai godi. Er enghraifft, ym Manceinion Fwyaf, roedd ail fersiwn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys ymgorffori hyblygrwydd cyllidebol i gyfuno cyllid o wahanol ffynonellau ar gyfer gwasanaethau prawf i fodloni'r galw cynyddol a hefyd i weithredu trefniant cyllido mwy lleol.[5]

**Dylai trefniadau llywodraethu fod yn gymesur a chael eu profi o ran eu gallu i ddarparu gwasanaethau gwell**, gyda phwyslais ar ganlyniadau a chasglu tystiolaeth yn barhaus; ac osgoi llywodraethu'n ormodol.[6] Mae teilwra llywodraethiant yn bwysig gan fod cyd-destun yn bwysig. Er bod enghreifftiau a phrofiadau o ranbarthau eraill yn ddefnyddiol i lywio ymarfer, mae anghenion lleol penodol y mae angen eu hadlewyrchu yn y strwythur llywodraethu. Dylai llywodraethu ym mhob achos alluogi gweithio mewn partneriaeth drwy werthoedd ac amcanion cyffredin.

Ystyriwyd bod **gwreiddio gweithio mewn partneriaeth** yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym Manceinion Fwyaf wedi bod yn hanfodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau a gofynion gwasanaeth. Defnyddiwyd swyddogaeth integreiddio i nodi y dylai deiliad y contract gydlynu a rheoli darparwyr eraill fel swyddogaeth eu model

[5] Fel y mae hyn yn ei ddangos, mae'n bosibl cyfuno cyllidebau o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (sydd o bosibl yn gofyn am gytundeb cyfreithiol ar wahân) ond, mewn egwyddor, byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth heb gronfeydd cyfun yn gyraeddadwy.

[6] Gweler astudiaeth achos yn Atodiad 1 o strwythurau llywodraethu y teimlid eu bod yn ormodol.

darparu gwasanaeth. Dylai hyn hefyd adlewyrchu anghenion lleol, i gefnogi gwaith partneriaeth llwyddiannus. Mae'r adran nesaf yn trafod perthnasoedd yn fanylach.

**Dylai goruchwyliaeth genedlaethol lywio gweithredu lleol**, gan gydbwyso cysondeb â hyblygrwydd i ddiwallu anghenion rhanbarthol a gwledig. Roedd unedau llywodraethu llai gyda mwy o leoliaeth yn cael eu ffafrio dros ardaloedd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu mawr, gyda modelau cyfiawnder ieuenctid a menywod yn cael eu nodi fel cynseiliau defnyddiol. Yn benodol, dylai data cyfiawnder troseddol, blaenoriaethau lleol ac ymchwil sy'n benodol i Gymru lywio strategaeth a darpariaeth. Ystyriwyd bod seilwaith rhannu gwybodaeth, gan gynnwys TG, adnoddau dynol a systemau cyfreithiol, yn hanfodol. Roedd rhai o gyfranogwyr yr astudiaeth yn credu y dylai'r gwasanaeth prawf gael ei strwythur llywodraethu ei hun yng Nghymru i gynyddu atebolrwydd arweinyddiaeth y gwasanaeth prawf.

Mae ffactorau llwyddiant yn cynnwys fframweithiau llywodraethu clir gyda rolau diffiniedig, goruchwyliaeth gyfrannol, ac alinio gwerthoedd ymysg partneriaid. Rhaid i lywodraethu effeithiol fynd i'r afael â'r 'ymylon garw' rhwng meysydd datganoledig a meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, cynnwys partneriaid statudol a thrydydd sector ac adeiladu ar gydweithrediadau presennol.

Mae Atodiad 1 yn cyflwyno enghreifftiau o ddulliau llywodraethu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n dangos sut mae gwahanol leoliadau wedi teilwra Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i ddiwallu eu hanghenion gwasanaeth penodol.

# Perthynol

## Argymhellion

- Adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus presennol drwy ddod â'r holl randdeiliaid at ei gilydd yn ystod y cam datblygu i sefydlu gweledigaeth a nodau ar y cyd, gyda chydberchnogaeth ar ganlyniadau.
- Creu sianeli cyfathrebu clir rhwng gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth ar y cyd a chryfhau gweithio mewn partneriaeth.
- Meithrin cydweithio drwy fecanweithiau fel secondiadau, rolau pontio, a ‘broceriaid gonest’.
- Dechrau gyda meysydd ffocws llai (ee carfan benodol o bobl neu thema drawsbynciol fel cyflogadwyedd neu ddigartrefedd) i brofi'r dull a chael cefnogaeth gan nifer o bartneriaid.
- Gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd ac egwyddorion cyffredin, gan gynnwys blaenoriaethu adsefydlu.
- Ystyried cynnig y trefniant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel dewis yn hytrach na gofyniad gorfodol, er mwyn annog cydweithio gwirioneddol.

Yr ail thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd meithrin perthynas rhwng y rheini sy'n ymwneud â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, i gefnogi gweithio mewn partneriaeth leol lle mae model Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chyd-gomisiynu gwasanaethau prawf.

Roedd rhai o gyfranogwyr yr astudiaeth o'r farn bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn adnodd meithrin perthnasoedd. Ystyriwyd bod perthnasoedd gwaith da yn allweddol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau prawf. Roedd cyfranogwyr yn cytuno bod meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda nifer o bartneriaid yn her allweddol, gan gynnwys datblygu dealltwriaeth o sut mae pob sefydliad partner yn gweithio a dysgu i gysoni gwahanol ffyrdd o weithio. Roedd rhai ymarferwyr o’r farn bod datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gyfle i gyd-fynd â systemau sefydliadol a phrosesau adrodd asiantaethau eraill, ac i ddysgu sut mae pob sefydliad yn gweithredu. Disgrifiwyd y broses o ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel cyfle i asiantaethau ddeall pwrpas gwasanaethau prawf a dysgu sut i gydweithio. Roedd hyn yn cydnabod y dylai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fod o fudd i'r naill ochr a'r llall ac ymestyn y tu hwnt i faterion ariannol.

**‘Yr her fwyaf i fy nhîm a minnau dros y 12 mis diwethaf oedd cael ein partneriaid allweddol i ddeall yn iawn beth yw’r gwasanaeth prawf a beth rydyn ni’n ei wneud... Doedden nhw ddim wir yn deall sut gallem ni gydweithio.’ (Ymarferydd prawf)**

Nodwyd yr elfennau canlynol fel heriau perthynol allweddol a brofwyd wrth weithio o dan fodel Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a thrwy gyd-gomisiynu.

Dywedodd cyfranogwyr fod meithrin ymddiriedaeth yn hanfodol ar gyfer cynnal perthnasoedd llwyddiannus rhwng partneriaid. O ran cyngor gan gyfranogwyr sydd â phrofiad gwaith o ddull gweithredu a chyd-gomisiynu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, un wers allweddol oedd sicrhau bod nodau’n cael eu gosod yn glir cyn sefydlu strwythurau cyd-gomisiynu. Roeddent yn disgrifio sefyllfaoedd lle'r oedd y berthynas rhwng asiantaethau partner wedi cael ei niweidio oherwydd newidiadau mewn polisi canolog neu newid mewn blaenoriaethau, a oedd yn golygu gorfod ail-negodi cytundebau. Roedd hi’n anodd ailadeiladu perthnasoedd ar ôl iddynt gael eu niweidio. Disgrifiodd ymarferwyr heriau lle bu’n rhaid i waith partneriaeth lleol ddod i ben yn sydyn oherwydd newidiadau mewn polisi, a sut mae’r system ganolog yn gallu llesteirio ymdrechion i feithrin perthnasoedd lleol.

**‘Mae potensial gwirioneddol i hynny wneud mwy o niwed na da i berthnasoedd wrth ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Roedden ni wedi gwneud llawer o waith. Roedd yr awdurdodau lleol yn gefnogol iawn, ac wedyn bu’n rhaid imi fynd yn ôl a dweud, “Anghofiwch am hynny i gyd”.’ (Ymarferydd prawf)**

Dywedwyd fod sicrhau ymrwymiad gan nifer o randdeiliaid a dod o hyd i gysondeb mewn gwerthoedd, canlyniadau a thargedau yn her allweddol yn ystod camau cynnar y gwaith o ddatblygu’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r ffiniau artiffisial a oedd yn bodoli rhwng gwahanol sefydliadau.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd deall ffyrdd pob sefydliad partner o weithio, gan gynnwys prosesau caffael, adnoddau a rheoliadau, yn ogystal ag ethos a diwylliant sefydliadol. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig wrth benderfynu pwy oedd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau gwahanol. Weithiau roedd gwahaniaethau mewn rheolau caffael gwahanol sefydliadau yn achosi cymhlethdodau yr oedd angen eu negodi. Mae angen prosesau caffael i gefnogi perthnasoedd gwaith da gydag amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys sefydliadau bach.

**‘...mae rhywbeth yn sicr yn bwysig am ddeall prosesau gwahanol sefydliadau. Ac ar lefel sylfaenol iawn, pwy sydd yn y sefyllfa orau i gomisiynu rhai o’r trefniadau hyn?' (Ymarferydd prawf)**

Mewn achosion eraill, roedd gwahaniaethau mwy sylfaenol mewn blaenoriaethau a phwrpas yn gofyn am gyflafareddu gofalus i ddod o hyd i gonsensws ymarferol.

> **'Roedden ni'n gweithio ar [gynllun adsefydlu cyffuriau], ... dywedodd yr heddlu "rydyn ni eisiau dewis y bobl sy'n achosi'r niwed mwyaf". Dywedodd yr asiantaeth gyffuriau "nid yw eich diffiniad chi o niwed yr un fath â'n diffiniad ni o niwed. Rydyn ni eisiau'r bobl sydd fwyaf tebygol o niweidio eu hunain". Ond wrth gwrs, dywedodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu "na, rydyn ni eisiau'r bobl sy'n mynd i ddod allan ac achosi anhrefn yn ein cymunedau". Aeth hi'n dipyn o ffrae...' (Ymarferydd prawf)**

Roedd cyfranogwyr yn cofio diffyg cyfatebiaeth rhwng targedau perfformiad y gwasanaeth prawf a pholisïau sefydliadau partner. Er enghraifft, nid yw targedau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar dai sefydlog i bobl sy'n gadael y carchar yn cael eu cefnogi gan adnoddau awdurdodau lleol oherwydd cyfyngiadau cyllidol neu flaenoriaethau gwahanol.

Eglurodd un ymarferydd prawf fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn mesur perfformiad yn erbyn targedau o ran sicrhau bod pobl yn gadael y carchar gyda llety sefydlog. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt fod awdurdodau lleol dan bwysau mawr a bod tai yn aml yn cael ei drin fel maes anodd. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol yn cydnabod angen blaenoriaethol unigolyn ond yn dal i farnu ei fod yn fwriadol ddigartref oherwydd iddo fynd i'r carchar, sy'n golygu na chynigir dyletswydd cymorth.

Roedd rhai ymarferwyr prawf yn teimlo bod y gwasanaeth yn cael ei anwybyddu weithiau, yn enwedig mewn trafodaethau ynghylch gweithio mewn partneriaeth yn lleol.

> **'Rydw i'n meddwl mai'r anhawster yw, fel gwasanaethau prawf, rydyn ni'n aml yn cael ein gadael allan o drafodaethau oherwydd ein bod ni'n weision sifil...rydyn ni'n cael ein hystyried yn rhan o'r llywodraeth ganolog pan mae sgyrsiau ynghylch datganoli'n digwydd.' (Ymarferydd prawf)**

Trafododd y cyfranogwyr fecanweithiau eraill hefyd a oedd yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth yn lleol yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r dull cyd-gomisiynu. Roedd un enghraifft o ranbarth nad yw wedi'i ddatganoli yn disgrifio sut roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi gweithredu fel brocer gonest i hwyluso parhad gwasanaethau pan roedd awdurdodau lleol yn wynebu heriau ariannol. Disgrifiwyd brocer gonest fel sefydliad sy'n cyfryngu rhwng partneriaid i gefnogi cydweithio.

**‘Gwneud pethau’n well i’r defnyddiwr gwasanaeth unigol ddylai pwrpas strategol trosfwaol Memoranda Cyd-ddealltwriaeth fod. Os nad dyna’r pwrpas, yna ewch adref, peidiwch â thrafferthu.’ (Arbenigwr y gwasanaeth prawf)**

Er mwyn cael cefnogaeth nifer o bartneriaid ar gyfer y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, argymhellwyd dull gwirfoddol, gyda’r trefniant yn cael ei gynnig fel dewis, i annog cydweithio gwirioneddol yn hytrach na chael ei orfodi drwy drwyddedu. Roedd canolbwyntio hefyd ar garfan benodol o bobl neu thema drawsbynciol, fel cyflogadwyedd neu ddigartrefedd, yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol o ran sicrhau ymrwymiad. Roedd y cyfranogwyr weithiau’n cyfeirio at y meysydd penodol hyn fel ‘tramleiniau’ neu ‘lonydd nofio’, a oedd yn galluogi gweithredu partneriaeth wedi'i dargedu ar yr un pryd â chynnal cysondeb strategol.

Nodwyd hefyd fod trosiant staff yn her allweddol wrth feithrin perthnasoedd. Yn y gwasanaeth prawf canolog, roedd trosiant uchel yn effeithio ar effeithlonrwydd gwaith wedi'i gomisiynu ar y cyd ac yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau egluro penderfyniadau a phrosesau dro ar ôl tro i aelodau newydd o’r tîm. Nodwyd bod trosiant ar lefel uwch arweinwyr yn her benodol ym Manceinion Fwyaf yn ystod eu datblygiad cychwynnol o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Ystyriwyd bod cymorth gan arweinwyr yn hanfodol er mwyn gweithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn llwyddiannus.

**‘Yr her allweddol oedd cael cydbwysedd ar lefel y llofnodwyr ar gyfer y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gywir. Roedd yr anhawster o ran athreuliad arweinyddiaeth a’r angen i gael lefel uchel o nawdd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn bwysig.’ (Ymarferydd prawf)**

# Ffactorau llwyddiant

Nododd ymarferwyr, academyddion a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru fod y canlynol yn ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer meithrin perthnasoedd wrth weithio mewn partneriaeth leol, fel dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

## Ymgysylltu a nodau ar y cyd

Dylai'r broses o ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth geisio gwella'r berthynas rhwng rhanddeiliaid y gwasanaeth prawf. Trafododd y cyfranogwyr bwysigrwydd meithrin perthynas wrth weithio gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys partneriaid statudol, darparwyr trydydd sector a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol.

Disgrifiwyd partneriaethau llwyddiannus fel rhai a oedd yn seiliedig ar ddemograffeg ac anghenion troseddwyr lleol, gyda'r hyblygrwydd i addasu i wahaniaethau rhanbarthol.

Ystyriwyd bod cyfathrebu clir a gweledigaeth a rennir ymysg partneriaid yn hanfodol, yn seiliedig ar sylfaen o berthnasoedd gweithio cydweithredol. Mae mynd i’r afael â chyfathrebu gwael a diffyg cysylltiad ar draws gwasanaethau mewn sefydliadau mawr, fel y rhai ym maes iechyd, yn bwysig er mwyn gwireddu potensial dull gweithredu thematig penodol ar gyfer darparu gwasanaethau prawf yng Nghymru, yn ogystal â chaniatáu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn fwy llwyddiannus. Mae camgyfathrebu a blaenoriaethau digyswllt yn ffactorau allweddol a allai niweidio'r berthynas rhwng asiantaethau. Byddai angen mynd i'r afael â'r rhain mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drwy osod nodau clir ar y cyd yn gynnar yn y broses ddatblygu.

Ystyriwyd bod adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus presennol yn well na chreu partneriaethau cwbl newydd. O brofiadau cyfranogwyr, mae perthnasoedd rhwng gwasanaethau’n datblygu’n araf, ac yn aml yn cael eu llesteirio gan ddiffyg ymddiriedaeth neu ddiffyg ymgysylltu. Ystyriwyd bod y broses o ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn allweddol i feithrin perthnasoedd effeithiol drwy ymgysylltu cyson a nodau cyffredin.[7] Roedd yn cael ei ystyried yn gyfle i sefydliadau ddysgu deall rôl gwasanaethau prawf a sut mae pob partner yn gweithredu. Dywedwyd fod cynnwys rhanddeiliaid yn ystod cam datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hanfodol i ddatblygu fframwaith cyd-gomisiynu a dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth llwyddiannus.

Mae’n bwysig sefydlu cydberchnogaeth ar ganlyniadau, yn enwedig sicrhau ymrwymiad awdurdodau lleol a chynnwys Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu clir a pharhaus a meithrin dealltwriaeth o risg a rennir.

## Dechrau’n fach a datblygu o hynny

Ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth ar raddfa lai yn ddefnyddiol o ran meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng partneriaid. Roedd y cyfranogwyr yn cefnogi'r syniad o ddull Memoranda Cyd-ddealltwriaeth penodol yn hytrach na cheisio ymdrin â phob agwedd ar wasanaethau prawf yng Nghymru mewn un cytundeb. Yn hytrach na chael eu pennu gan ffiniau daearyddol, mynegwyd awgrymiadau ynghylch ffocws a graddfa Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yng Nghymru o ran gwerthoedd, themâu, carfannau blaenoriaeth a graddau lleoliaeth a rennir.

> **‘Rydym wedi treialu [y gwasanaeth dibyniaeth ac adfer] mewn un ardal am 18 mis. Roedd yn llwyddiant ysgubol. Drwy allu dangos llwyddiant yn un o'r ardaloedd sirol, rydym wedi gallu defnyddio**

[7] Edrychwch ar Atodiad 2 i gael rhagor o fanylion.

**hyrwyddwyr yr awdurdod lleol hwnnw i berswadio eu cydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill.' (Ymarferydd prawf)**

Dywedodd cyfranogwyr y dylai dull adsefydlu sy'n seiliedig ar werthoedd fod yn strategaeth gyffredinol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y gwasanaethau prawf yng Nghymru. Ystyriwyd bod mynd i'r afael â themâu trawsbynciol fel tai, cyflogadwyedd ac iechyd meddwl yn cael yr effaith bosibl fwyaf ac yn ffactor llwyddiant allweddol.

Trafodir rhai enghreifftiau o feysydd ffocws penodol isod, ynghyd â'r rhwystrau perthynol y byddai angen eu goresgyn i ddatblygu perthnasoedd gwaith llwyddiannus rhwng asiantaethau. Tynnwyd sylw at natur anffurfiol gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol, sy'n seiliedig ar berthynas.

Mae cyfleoedd allweddol ar gyfer meithrin perthnasoedd yn cynnwys gweithio 'mor lleol â phosibl' (cynrychiolydd Undeb Llafur), mwy o ddefnydd o ddarparwyr trydydd sector a chynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol. Roedd systemau comisiynu canolog yn cael eu gweld fel rhwystr i weithio gyda sefydliadau llai, ac roedd diffyg cyllid tymor hir yn cael ei ystyried yn rhwystr i feithrin cysylltiadau cryf â phartneriaid yn y trydydd sector.

# Crynodeb

Mae gan ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y potensial i fod yn adnodd perthynol gwerthfawr, gan feithrin cyd-ddealltwriaeth ac aliniad ar draws asiantaethau. Mae'n cynnig cyfle i ddysgu systemau sefydliadol, egluro rôl gwasanaethau prawf, ac adeiladu fframweithiau cydweithredol. Mae ein hargymhellion yn awgrymu ffyrdd o reoli hyn yn llwyddiannus er mwyn sicrhau ymrwymiad ac ymddiriedaeth gan yr holl bartneriaid mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Gall meithrin perthynas fod yn broses araf a bwriadol, ond mae'n hanfodol ar gyfer cyd-gomisiynu effeithiol a darparu gwasanaeth prawf yn well. Yn y pen draw, argymhellwyd dull adsefydlu sy'n seiliedig ar werthoedd, gyda hyblygrwydd i addasu i anghenion lleol. Roedd gweithio'n lleol, cynnwys y trydydd sector, ac ymgorffori profiad bywyd yn cael eu hystyried yn llwybrau i ddatblygu dull ymatebol.

Mae'n bwysig ennill a rheoli ymddiriedaeth defnyddwyr. Roedd newid polisïau canolog, blaenoriaethau anghyson a newidiadau nad oeddent yn cael eu cyfleu ymlaen llaw ac a oedd wedyn yn tarfu ar bartneriaethau lleol i gyd yn ffactorau a allai danseilio ymddiriedaeth. Roedd buddsoddiad cynnar i gysoni gwerthoedd a chanlyniadau i sicrhau ymrwymiad rhanddeiliaid yn bwysig.

Roedd y ffactorau llwyddiant a nodwyd yng Nghymru yn cynnwys nodau cyffredin, ymgysylltu cyson, a chyfathrebu clir. Roedd yn well adeiladu ar bartneriaethau presennol na dechrau o'r newydd; ac roedd cynnwys rhanddeiliaid yn gynnar a

chydberchnogaeth ar ganlyniadau yn hanfodol. Mae dechrau'n fach a datblygu o hynny, gan adeiladu ar gynnydd cychwynnol wrth feithrin ymddiriedaeth, wedi gweithio'n dda. Hefyd, gwelwyd bod canolbwyntio ar garfan benodol o bobl neu thema drawsbynciol, fel cyflogadwyedd neu ddigartrefedd, yn ddefnyddiol wrth gael cefnogaeth gan nifer o bartneriaid.

Roedd trosiant staff, yn enwedig o ran arweinyddiaeth, yn tarfu ar gynnydd ac yn golygu bod angen cynefino pobl dro ar ôl tro. Nodwyd bod nawdd gan arweinwyr yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac ystyriwyd bod cael cefnogaeth gan wahanol asiantaethau drwy fentrau fel secondiadau yn fuddiol.

Roedd gwahaniaethau mewn prosesau caffael a thargedau perfformiad, yn enwedig o ran tai, yn tynnu sylw at gam-alinio systemig. Roedd prosesau caffael yn bwysig i gefnogi perthnasoedd gwaith da gydag amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys sefydliadau bach (gweler isod).

Mae Tabl 1 yn crynhoi safbwyntiau ar gyfleoedd posibl dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yng Nghymru a'r rhwystrau y byddai angen eu goresgyn o ran materion perthynol.

### Tabl 1: Cyfleoedd a heriau perthynol dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

| Cyfleoedd perthynol | Yr heriau i'w goresgyn |
|---|---|
| Pwyslais ar ddulliau gweithredu wedi'u targedu, fesul cam gyda buddion wedi'u mapio'n glir. | Ystyrir bod comisiynu canolog yn gallu tanseilio arloesedd a mentrau lleol. |
| Ffocws cryf ar wasanaethau adsefydlu: tai, cyflogaeth, iechyd meddwl, ac ati. | Pryderon ynghylch sefydlogrwydd a natur tymor byr cyllid y trydydd sector yn y themâu hyn a diffyg parhad gofal. |
| Cefnogaeth i ganolfannau cymunedol ac integreiddio profiad bywyd. | Risg bod sefydliadau mawr yn dominyddu contractau Gwasanaeth Adsefydlu wedi'i Gomisiynu ar draul rhai llai sy'n cael eu harwain gan y gymuned. |
| Gwerthfawrogi darparwyr trydydd sector bach, arbenigol a dylunio gwasanaethau cynhwysol. | Nodwyd fod ansicrwydd gwleidyddol a phoblyddiaeth gosbol yn rhwystrau. |
| Galwadau am brosesau comisiynu hyblyg, clir sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n sensitif yn ddiwylliannol. | Cyfathrebu gwael a diffyg cysylltiad o fewn sefydliadau mawr (ee iechyd). |

Ffynhonnell: Gweithdy Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru

Mae Atodiad 2 yn cyflwyno enghreifftiau o feithrin perthynas o brofiad Manceinion Fwyaf o ran cyflawni cyfunol a chyfrifoldebau a rennir a chyd-gomisiynu o amgylch canolfannau.

# Gweithredol

**Argymhellion**

- Sicrhau bod dulliau rheoli contractau a chaffael yn caniatáu digon o hyblygrwydd i gefnogi cyflenwyr trydydd sector lleol, gan gadw fframwaith goruchwylio ac atebolrwydd cadarn ar yr un pryd.
- Cynnwys mudiadau trydydd sector yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Negodi a sefydlu Cytundebau Rhannu Gwybodaeth fel rhan o broses ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gefnogi'r gwaith o rannu data sy'n benodol i Gymru rhwng asiantaethau, galluogi personoli a pharhad gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr prawf, a chefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Galluogi mwy o ymreolaeth i staff wella gwasanaethau a chefnogi staff i ddarparu atebion lleol, er enghraifft caniatáu iddynt ddewis y darparwr lleol cywir yn hytrach na gweithredwyr cenedlaethol neu ranbarthol.
- Sicrhau bod strategaeth leol a blaenoriaethau cyflawni yn cael eu llywio gan ddata cyfiawnder troseddol sy'n benodol i Gymru.
- Mapio'r nifer o fannau cyswllt sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws gwahanol asiantaethau i integreiddio llwybrau a dangos sut gallai gwasanaethau alinio.
- Datblygu strategaeth gyllido dros sawl blwyddyn dryloyw ar gyfer gwasanaethau prawf sy'n ystyried blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, cyfyngiadau modelau comisiynu presennol ledled y DU, a'r 'ymylon garw' sy'n cael eu creu gan ffiniau llywodraethu gwahanol.
- Archwilio modelau cyllido hyblyg, cyllid cyfun a dulliau sy'n seiliedig ar grantiau i wneud cyllid yn fwy hygyrch i ddarparwyr llai yn y trydydd sector.
- Rhoi mwy o bwyslais gyllidebau buddsoddi rhagarweiniol ac ailfuddsoddi unrhyw arbedion mewn rhaglenni eraill yng Nghymru, yn hytrach nag mewn meysydd a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU.

Er mwyn gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau'n llwyddiannus yng Nghymru, mae angen llywio drwy dirwedd gymhleth o lywodraethu, daearyddiaeth a diwylliannau sefydliadol. Mae goresgyn y rhwystrau hyn yn cynnwys cyfuniad o ddiwygio strwythurol, arferion cynhwysol a strategaethau meithrin perthynas cryf.

Yn weithredol, pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd y defnydd o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth fel adnodd rheoli contractau, ac fel ffordd o ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

O ran manteision a chyfleoedd a ddarperir drwy ddull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd yn bwysig cefnogi ymarferwyr i fod yn fwy ymatebol i anghenion lleol drwy ddatblygu atebion lleol arloesol, fel defnyddio darparwyr cymunedol bach. Dywedwyd hefyd bod parhad gwasanaeth yn bwysig o fewn contractau ac ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth prawf. Ystyriwyd bod canfod a llywio drwy'r cymhlethdodau a achosir gan ddiffyg cydlynu rhwng gwasanaethau neu ddyblygu rhwng asiantaethau yn allweddol i ddarparu cymorth digonol.

> **‘...Roedd [y defnyddiwr y gwasanaeth prawf] yn cael ei gefnogi gan weithiwr cymorth i ddioddefwyr hyd at adeg yr ymweliad â’r llys, ac yna cafodd ei drosglwyddo i rywun nad oedd erioed wedi cwrdd ag ef o’r blaen [i siarad] am ei brofiad yn y llys... ac yna aeth yn ôl at yr unigolyn a oedd yn ei helpu’n flaenorol, ac roedd yn rhwystr, ac nid oedd wedi arbed unrhyw arian.’ (Arbenigwr y gwasanaeth prawf)**

## Rheoli contractau

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn arbennig o bwysig ar gyfer rheoli contractau gwasanaethau wedi'u comisiynu ar y cyd lle mae nifer o asiantaethau'n gysylltiedig ac fel ffordd i staff prawf reoli risg o ran darparu gwasanaethau. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd ddefnyddio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ragweld a lliniaru risgiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, gan helpu i ddiogelu cyfrifoldebau a buddiannau statudol a masnachol y gwasanaeth prawf.

> **‘Rydym yn defnyddio’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn dweud sut byddwn ni’n [dal darparwyr i gyfrif], sut rydym yn sicrhau ein bod ni’n cael y gwasanaeth sydd ei angen arnom... Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni’n cael yr hyn rydym yn ei ddisgwyl am ein harian.’ (Ymarferydd prawf)**

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at werth Memoranda Cyd-ddealltwriaeth fel adnodd ar gyfer rheoli contractau, negodi cyfrifoldebau a mynd i'r afael â risg mewn ffyrdd na allai mecanweithiau partneriaeth eraill, fel secondiadau, eu cyflawni. Disgrifiodd un ymarferydd yr anawsterau sylweddol sy'n gysylltiedig â cheisio dod â dwy nyrs iechyd meddwl i swyddfa brawf drwy'r strwythurau comisiynu presennol. Arweiniodd gwahanol ddehongliadau o gyfrifoldebau rhwng comisiynwyr iechyd a chyfiawnder troseddol at sefyllfa o oedi am 18 mis, a bu’n rhaid i’r gwasanaeth ddibynnu ar gytundebau secondiad heb y mesurau diogelu, y targedau a’r mesurau perfformiad sydd fel arfer wedi’u cynnwys mewn contractau ffurfiol.

**‘Pe baem wedi gallu gwneud hynny drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, neu gontract, byddai wedi bod yn syml iawn.’ (Ymarferydd prawf)**

Gwnaethant nodi bod delio â phryderon timau masnachol a oedd am osgoi risg yn her sy’n codi’n aml, ac roeddent yn dadlau bod deall archwaeth risg fewnol yn hanfodol ar gyfer dylunio trefniadau ymarferol a rhoi sicrwydd i gydweithwyr masnachol.

Dywedodd cyfranogwyr fod rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn her sylweddol sy'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth prawf yn gyffredinol. Gellir negodi a chytuno ar Gytundebau Rhannu Gwybodaeth yn ystod cam datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a ddisgrifiwyd fel rhai hanfodol ond sy'n cymryd llawer o amser i gytuno arnynt a'u rhoi ar waith. Mae Cytundebau Rhannu Gwybodaeth yn ymdrin nid yn unig â sut a pha wybodaeth am ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n cael ei rhannu, ond hefyd sut mae'n cael ei defnyddio, ei storio a'i diogelu.

O safbwynt darparwyr gwasanaethau cymunedol a thrydydd sector, er bod pwysigrwydd diogelu gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gydnabod, mae cael gafael ar wybodaeth hanfodol gan bartneriaid statudol yn gallu cymryd amser hir (hyd at 18 mis mewn rhai achosion) ac felly'n arwain at oedi sylweddol o ran darparu gwasanaethau.

**‘Gwneud yn siŵr ein bod mewn lle diogel gyda Chytundebau Rhannu Gwybodaeth, gan wneud yn siŵr ein bod yn cael gwerth am arian, ei fod wedi cael ei graffu ac ati. Felly mae'n rhan o'r egwyddorion caffael yn ogystal â gwneud yn siŵr nad ydym yn dyblygu'r gwasanaeth yn fasnachol.’ (Ymarferydd prawf)**

Felly, bydd yn bwysig sicrhau bod Cytundebau Rhannu Gwybodaeth yn cael eu negodi fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a bod prosesau ar waith i alluogi rhannu data'n ddiogel ac yn brydlon, a all helpu i wireddu buddion yn gyflymach.

O ran amddiffyniadau masnachol ar gyfer gwasanaethau prawf wedi'u comisiynu ar y cyd, disgrifiwyd bod rheoli contractau'n gadarn yn arbennig o bwysig wrth ymgysylltu â sefydliadau o faint penodol neu ddarparwyr masnachol, lle'r oedd materion fel gwerth am arian, craffu a diogelu egwyddorion caffael yn cael eu hystyried yn arbennig o arwyddocaol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai cyfranogwyr fod ymdrechion i amddiffyn gwasanaethau prawf weithiau’n golygu bod contractau’n mynd yn anhylaw ac yn rhy gymhleth. Gallai hyn annog partneriaid bach lleol i beidio â gweithio o dan ddull Memoranda Cyd-ddealltwriaeth.

**‘[Dywedodd darparwr bach, lleol] “dydyn ni ddim eisiau’r contract”... doedden nhw ddim yn teimlo'n gyfforddus yn cymryd contract. Rydw**

**i'n meddwl oherwydd ...o gael contract mawr gyda'r gwasanaeth prawf a beth mae hynny'n ei olygu. Felly roedden nhw eisiau aros yn fwy rhydd. Roedd yn eu clymu nhw'n ormodol, o ran, "byddwch chi'n gwneud hyn erbyn y dyddiad hwn". Felly mae'n bosib ei fod wedi teimlo'n rhy feichus.' (Cynrychiolydd Undebau Llafur)**

Felly, dylai prosesau rheoli contractau gydbwyso'r angen am oruchwyliaeth ac atebolrwydd cadarn â'r gallu i fod yn hyblyg a galluogi, yn enwedig ar gyfer cyflenwyr bach.

O safbwynt ymarferwyr prawf, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn llafurddwys – nid yn unig yn ystod y cyfnod datblygu ond hefyd drwy gydol y cyfnod cyflawni. Rhaid i dimau prawf fonitro cynnydd yn rheolaidd i sicrhau bod y canlyniadau disgwyliedig yn cael eu cyflawni ac i werthuso ac addasu lle bo angen. Nid adnodd untro ydyw. Nid yw hyd yn oed y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mwyaf cadarn yn dileu cyfrifoldeb gweithredol timau'r gwasanaeth prawf, ac mae'n dal yn ddarn sylweddol o waith.

**'Bob mis, byddwn yn mynd i mewn yno, ac os oes heriau gweithredol maen nhw'n eu hwynebu, neu heriau maen nhw'n eu hwynebu yn y contract, ein cyfrifoldeb ni yw hynny. Oherwydd os nad yw atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn gywir, neu os nad ydynt yn cael digon o wybodaeth, mae'r rheini'n bethau y gallwn eu trosglwyddo'n ôl i'r tîm gweithredol a'u cywiro.' (Ymarferydd prawf)**

Roedd rhai ymarferwyr yn dadlau y gall y derminoleg sydd ynghlwm â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wneud i'r broses ymddangos ar sail gyfreithiol fwy cadarn, a allai fod yn wir: er enghraifft, y byddai cosbau ffurfiol os byddech yn camu y tu allan i'r fframwaith.

**'Rwy'n credu bod disgwyliad ei fod ar ryw fath o sail gyfreithiol a bod sefydliadau'n rhwym wrth [Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth] a bydd rhywbeth yn digwydd os byddwch chi'n camu y tu allan i'r hyn sydd yno. Mae meddwl amdano fel set o egwyddorion gweithredu neu rywbeth fel hynny yn ddisgrifiad gwell...' (Ymarferydd prawf)**

Yn yr un modd, mynegwyd rhai safbwyntiau ynghylch a allai'r gofyniad am reoli contractau'n barhaus ac yn gadarn wneud model Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddiangen o feichus. I'r cyfranogwyr hyn, roedd mathau mwy anffurfiol o weithio mewn partneriaeth yn cael eu hystyried yn fwy syml i'w gweithredu ac o bosibl yn fwy deniadol i gyflenwyr. I un cyfranogwr (a ddyfynnir uchod), gellid osgoi'r anhawster hwn, i raddau, drwy gyfeirio at Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel set o 'egwyddorion gweithredu' neu debyg.

Er bod cydweithio anffurfiol yn gallu cael rhai o'r un canlyniadau o ran gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau, mae trefniant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol yn gallu gwireddu manteision ychwanegol sylweddol, gan gynnwys llai o risg o ddyblygu gwasanaethau; defnyddio arian cyhoeddus cyfyngedig yn fwy effeithlon; a manteision arbedion maint wrth gyfuno gwasanaethau, gan reoli'r risgiau o orgyffwrdd neu fethiant gwasanaeth. Gall cyd-gomisiynu hefyd roi rôl fwy ffurfiol i'r partneriaid comisiynu (ee Llywodraeth Cymru) o ran cysoni'r gwaith o ddarparu gwasanaethau â gwasanaethau cyhoeddus eraill a gwerthoedd a dull gweithredu strategol yr holl bartneriaid, fel sydd wedi digwydd ym Manceinion Fwyaf (Price, Notman a Tilley, 2024).

## Gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth mwy lleol

Disgrifiwyd yr ail ddefnydd gweithredol allweddol o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel ffordd o sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu ar sail anghenion troseddwyr yn hytrach nag ar sail rheoli troseddwyr, fel bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu. Mae hyn yn rhoi anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth galon darparu gwasanaethau ac mae angen ffordd fwy personol a lleol o weithio.

Roedd personoleiddio’n cynnwys y cynlluniau personol sy'n dilyn unigolion drwy gydol eu taith yn y System Cyfiawnder Troseddol a chydnabyddiaeth bod llwyddiant yn amrywio yn ôl unigolyn, nad yw bob amser yn cyd-fynd â mesurau adrodd safonol. Tynnwyd sylw at barhad gwasanaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r newid o’r carchar i'r gymuned, sy'n gofyn am gynllunio rhyddhau cynnar a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau.

Trafododd y cyfranogwyr yr angen am fwy o ymreolaeth leol a llywodraethu cyfrannol. Roeddent yn disgrifio enghreifftiau lle'r oedd dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn galluogi staff i fod yn fwy ymatebol i anghenion lleol drwy ddatblygu atebion lleol arloesol sy'n herio terfynau'r model canolog.

Er enghraifft, disgrifiodd un cyfranogwr anawsterau o ran sicrhau gwasanaethau Dibyniaeth ac Adfer mewn lleoliad gwledig a nododd ei fod yn goresgyn hyn drwy ymestyn y ddarpariaeth drwy gomisiynu ar y cyd ac integreiddio â gwasanaethau cyffuriau statudol presennol.

> **‘Rydym wedi ychwanegu at eu gwasanaethau dibyniaeth statudol presennol – eu gwasanaethau cyffuriau.’ (Ymarferydd prawf)**

Drwy’r dull hwn, roedd y cyfranogwr yn gallu cynyddu’r gyllideb tua 50 y cant a sicrhau parhad y cymorth y tu hwnt i gyfnod unigolyn ar brawf. Roeddent yn pwysleisio bod methu â gweithredu’r model canolog yn gorfodi ymateb lleol mwy creadigol ac, yn y pen draw, mwy effeithiol.

**‘Rydym yn ffodus oherwydd ein hanffawd... rwy’n meddwl bod gennym ni wasanaeth llawer gwell oherwydd mae gennym ni un mwy lleol, un mwy ymatebol.’ (Ymarferydd prawf)**

Clywsom hefyd gan y rhai a gyfwelwyd fod potensial am fwy o ystwythder, ymatebolrwydd ac ymreolaeth leol o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth o'i gymharu â chomisiynu mwy canolog. Er enghraifft, esboniodd un ymarferydd yn Lloegr fod ymgais ar lefel genedlaethol i gyflwyno darparwr gwasanaeth ochr yn ochr â darpariaeth leol wedi bod yn anymarferol, gan arwain at ddyblygu, rolau’n gorgyffwrdd a dryswch i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn dilyn hyn, rhoddwyd y gorau i'r model comisiynu a dechreuodd y gwaith yn uniongyrchol gyda 13 awdurdod lleol a'u timau camddefnyddio sylweddau o dan drefniant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a oedd yn caniatáu ychwanegu darpariaeth ychwanegol at gontractau presennol awdurdodau lleol heb ymarfer tendro ffurfiol na dyblygu gwasanaethau. Ystyriwyd bod yr hyblygrwydd hwn yn fantais fawr o ystyried arafwch y systemau tendro presennol.

Dywedodd ymarferwyr, yn enwedig y rhai â phrofiad helaeth, fod gallu defnyddio eu barn broffesiynol yn fwy rhydd i fynd i'r afael â materion lleol yn ffactor allweddol yn eu hawydd am fwy o ymreolaeth leol. Ystyriwyd bod defnyddio darparwyr cymunedol bach yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau personol ac arloesol. Fodd bynnag, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod terfynau caffael presennol a chyllidebau lleol bach yn effeithio ar raddfa a photensial y gwasanaethau hyn.

**‘Nid ydynt [darparwyr bach yn y trydydd sector] yn gallu cyflogi digon o staff oherwydd rydym yn rhoi £10,000 iddynt [y terfyn dyfarnu uniongyrchol]. Allwch chi ddim mynd i nôl aelod o staff am flwyddyn ar gyfer hynny [er] bod ganddyn nhw lawer o bocedi bach eraill, tra gallai datganoli roi cyfle i wneud gwasanaeth ymroddedig tair blynedd er mwyn iddyn nhw allu uwchraddio gweithrediadau a dangos beth maen nhw'n gallu ei wneud.’ (Ymarferydd prawf)**

Bydd sicrhau bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hwyluso gweithio gydag ymarferwyr lleol llai mewn rhanbarthau ledled Cymru, drwy drefniadau llywodraethu/rheoli contractau a chaffael, yn bwysig er mwyn manteisio i'r eithaf ar y dull hwn.

# Ffactorau llwyddiant

Gall sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn galluogi system weithredol leol helpu i wireddu'r manteision canlynol: i) galluogi ymreolaeth staff i ddarparu atebion lleol; ii) rhannu gwybodaeth a pharhad gwasanaeth yn well; a iii) cyllid lleol a chyfunol.

**Ymreolaeth staff i ddarparu atebion lleol.** Ystyriwyd bod hyn yn hanfodol i wella gwasanaethau ac yn ffordd bwysig o ddenu a chadw staff medrus. Nodwyd bod materion yn ymwneud â chapasiti'r gweithlu a diwylliant gweithio staff prawf yn hanfodol er mwyn deall a ellid gweithredu dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn llwyddiannus. Byddai angen datrys heriau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff, pwysau llwyth gwaith ac ansefydlogrwydd yn y sector fel rhan o unrhyw newidiadau pellach i wasanaethau prawf. Ystyriwyd bod galluogi mwy o ymreolaeth staff i wella gwasanaethau a chefnogi staff i ddarparu atebion lleol yn ffyrdd pwysig o ddenu a chadw staff medrus sy'n angenrheidiol yn y gwasanaeth prawf. Ystyriwyd bod cynnwys mwy o sefydliadau trydydd sector yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn un ffordd o helpu i gefnogi materion llwyth gwaith nawr ac yn y dyfodol a chefnogi sefydlogrwydd yng ngweithlu'r gwasanaeth prawf.

**Data gwell a rhannu gwybodaeth yn well i gefnogi parhad gwasanaeth.** Ystyriwyd bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn fecanwaith a allai ganiatáu cynllunio gwell ar gyfer rhyddhau, rhannu gwybodaeth yn well a pharhad gwasanaethau o'r carchar i'r gymuned.

Er mwyn i ddull Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gael ei ystyried yn llwyddiannus, mae'n bwysig nodi anghenion a blaenoriaethau unigolion. I gefnogi hyn, mae rhannu data sy'n benodol i Gymru rhwng asiantaethau er mwyn galluogi personoli a pharhad gwasanaethau i ddefnyddwyr prawf yn hanfodol. Byddai data o'r fath hefyd yn werthfawr fel tystiolaeth i nodi anghenion unigol, mesur canlyniadau a thynnu sylw at ganlyniadau anfwriadol neu anghenion heb eu diwallu. Fodd bynnag, mae angen buddsoddi mewn systemau data a chasglu data fel cam cyntaf.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod llwyddiant yn amrywio fesul unigolyn ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd **cynlluniau personol sy'n dilyn pobl drwy gydol eu taith yn y system cyfiawnder troseddol**. Ystyriwyd bod mecanwaith sy'n cefnogi cynllunio cynnar ar gyfer rhyddhau ac sy'n gwella'r broses o rannu gwybodaeth a pharhad gwasanaeth o'r carchar i'r gymuned yn hanfodol. I gyflawni hyn, ystyriwyd bod creu map trywydd a mapio'r nifer o fannau cyswllt sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws gwahanol asiantaethau yn ddefnyddiol o ran helpu i integreiddio llwybrau a dangos sut gallai gwasanaethau alinio'n well. Argymhellwyd yr arfer hwn gan ymarferwyr â phrofiad o negodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a datblygu gwaith partneriaeth mwy lleol.

**'Un o'r pethau sy'n eithaf defnyddiol yw...mapio allan...nifer y pwyntiau cyffwrdd y mae [defnyddiwr gwasanaeth] wedi'u cael...i ddangos cost yr unigolyn hwnnw i bob un o'r gwasanaethau hynny.' (Arbenigwr y gwasanaeth prawf)**

Gwelodd y cyfranogwyr hefyd botensial i gryfhau rôl y trydydd sector, darparu gwasanaethau mwy personol a gwella parhad gwasanaeth yn enwedig gyda

gwasanaethau ‘Drwy’r Gât’ drwy gyd-gomisiynu a model Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

**Mwy o gyllid lleol a chyllid cyfun**. Roedd parhad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn allweddol bwysig i'r cyfranogwyr, a awgrymodd nifer o newidiadau i'r trefniadau cyllido presennol i gefnogi'r rhain. Yng Nghymru, roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth llwyddiannus hyrwyddo cyd-gomisiynu a modelau cyllido hyblyg i annog mwy o ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau llai a lleol. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at yr angen am strategaeth gyllido glir a theg sy’n ystyried blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru a chyfyngiadau modelau comisiynu presennol ledled y DU (fel CRS), yn ogystal â’r ‘ymylon garw’ sy’n cael eu creu gan wahanol ffiniau llywodraethu, yn enwedig o ran carchardai a throsglwyddiadau. Ystyriwyd bod strategaethau cyllido dros sawl blwyddyn yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd a chynllunio tymor hir. Roedd yn well gan rai cyfranogwyr symud oddi wrth gomisiynu tuag at ddulliau mwy seiliedig ar grantiau er mwyn gwneud cyllid yn fwy hygyrch i ddarparwyr bach yn y trydydd sector. Yn olaf, awgrymodd cyfranogwyr yng Nghymru y dylai cyllid gael ei flaenoriaethu, gyda buddsoddiad yn cael ei ddyrannu ar ddechrau'r broses ac unrhyw arbedion neu fuddion ariannol yn cael eu hailfuddsoddi mewn rhaglenni eraill yng Nghymru.

# Crynodeb

Dylai'r strwythurau a roddir ar waith o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydbwyso rheoli contractau'n gadarn ac yn gymesur â chadw'r unigolyn wrth galon y gwaith o ddarparu gwasanaethau a chyd-gomisiynu.

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr o'r farn bod angen sicrhau llywodraethu clir, goresgyn cyfyngiadau ar gyllid a gwella personoli fel ffactorau allweddol o ran elfennau gweithredol wrth ddatblygu dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chyd-gomisiynu gwasanaethau prawf yng Nghymru.

Y wers allweddol a ddysgwyd o ran agweddau gweithredol ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a dull cyd-gomisiynu yw pwysigrwydd protocolau clir a ffocws sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

> **‘mae’r unigolyn y mae’r gwasanaethau wedi’u cynllunio ar ei gyfer wrth galon popeth rydych chi'n ei wneud...mae'n rhaid i chi gofio bod rhywun ar ei daith...weithiau mae hynny'n gallu mynd ar goll [wrth gomisiynu]’ (Sefydliad trydydd sector)**

O ran cyngor a pheryglon cyffredin i'w hosgoi, pwysleisiodd cyfranogwyr â phrofiad o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gymesuredd wrth reoli contractau, gan sicrhau nad yw prosesau'n llesteirio'r gwaith o redeg gwasanaethau hanfodol yn ddidrafferth, mewn perthynas â phwyntiau a godwyd mewn perthynas â llywodraethu uchod.

Gall Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hyrwyddo cyd-gomisiynu a modelau cyllido hyblyg, yn enwedig ar gyfer sefydliadau bach neu leol. Gall hyn gefnogi mwy o ymatebolrwydd i anghenion lleol ac ymatebion arloesol. Bydd angen strategaeth gyllido glir a theg, gan ystyried blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru a mynd i'r afael â chyfyngiadau modelau comisiynu presennol ledled y DU.

Er bod cytundeb gydag ymarferwyr o ranbarthau Lloegr ynghylch manteision posibl cyd-gomisiynu, gan gynnwys cyllidebau cyfun (gyda chytundeb ar wahân) a gweithio mewn partneriaeth yn fwy lleol, nodwyd nifer o rwystrau sy'n benodol i Gymru. Roedd y rhain yn cynnwys absenoldeb carchar i fenywod, sicrhau bod dewisiadau eraill yn lle dedfrydau byr o garchar i fenywod, yn ogystal â’r angen i gasglu data sy’n benodol i Gymru a mecanwaith swyddogaethol ar gyfer rhannu data rhwng gwasanaethau.

Mae Tabl 2 yn crynhoi safbwyntiau ar gyfleoedd posibl dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yng Nghymru a'r rhwystrau y byddai angen eu goresgyn mewn perthynas â materion gweithredol.

### Tabl 2: Cyfleoedd a heriau gweithredol dull gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

| Cyfleoedd gweithredol | Yr heriau i'w goresgyn |
|---|---|
| Potensial i gryfhau’r trydydd sector, cynnig gwasanaethau mwy personol, a gwella parhad gwasanaethau, yn enwedig gyda gwasanaethau ‘drwy’r gât’. | Heriau strwythurol: dim carchar i fenywod na chanolfan breswyl i fenywod yng Nghymru, poblogaeth carchardai dameidiog. |
| Gallai cyfuno cyllidebau gynyddu cyllid ac amrywiaeth gwasanaethau. | Pwysigrwydd amcanion cyffredin ac ystyriaeth ofalus o llofnodwyr/partneriaid y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chyfnod ymgysylltu/trafodaethau i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal gan yr holl bartneriaid. |
| Cydleoli a rhannu mannau gwasanaeth (ee Cymru Ddiogelach a'r Gwasanaeth Prawf). | Tensiwn rhwng modelau cenedlaethol ac ymatebolrwydd lleol. |
| Cyfle i fod yn fwy arloesol, hyblyg ac ymatebol yn lleol. | Ansicrwydd ynghylch llywodraethu, cyfrifoldeb a dyrannu adnoddau. |
| Pwyslais ar gyd-ddealltwriaeth o ddiogelwch, lleihau achosion o dorri amodau a chynyddu ymgysylltiad gwirfoddol. | Angen rhannu data’n well, eglurder ynghylch pwerau datganoledig a thryloywder comisiynu. |

Ffynhonnell: Gweithdy Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru

# Casgliad

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn fodel hyfyw a gall fod yn adnodd defnyddiol yng Nghymru, gyda manteision sylweddol yn bosibl os yw'r broses yn cael ei rheoli'n dda; bod fframweithiau llywodraethu'n glir ac wedi'u diffinio; a bod perthnasoedd dibynadwy'n cael eu meithrin drwy gydol cylch bywyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Dylai'r trefniadau llywodraethu fod yn glir ac wedi'u diffinio'n dda, gyda digon o gyllid a hyblygrwydd i wneud trefniadau lleol lle bo angen. Rhaid negodi'r materion hyn a'u nodi'n glir mewn dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o gyd-gomisiynu gwasanaethau prawf yng Nghymru. Pwysleisiodd y cyfranogwyr y dylai prif lofnodydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fod yn rhywun y mae ymarferwyr prawf yn ymddiried ynddo, yn ogystal ag awdurdodau dirprwyedig.

Mae llywodraethu effeithiol mewn gwasanaethau prawf hefyd yn gofyn am fframweithiau addasadwy sy’n adlewyrchu anghenion lleol. Er mwyn i ddull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth weithio’n dda, dylai fod yn ailadroddol ac yn sensitif i gyd-destun. Rhaid i fodelau llywodraethu strategol gefnogi gwasanaethau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, galluogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata a hyrwyddo atebolrwydd. Mae potensial i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth weithredu fel mecanwaith ar gyfer diwygio strwythurol a chefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth prawf yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae cysylltiadau cryf rhwng asiantaethau yn hanfodol i weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth. Roedd pwysigrwydd seilio partneriaethau ar ddemograffeg ac anghenion troseddwyr lleol, gyda hyblygrwydd i addasu i wahaniaethau rhanbarthol, hefyd yn cael ei ystyried yn hanfodol. Tynnwyd sylw at fecanweithiau fel secondiadau, rolau pontio a broceriaid gonest fel adnoddau defnyddiol ar gyfer annog cydweithio. Roedd mapio teithiau defnyddwyr gwasanaeth a chanolbwyntio ar nodau cyffredin, fel cyflogadwyedd neu ddigartrefedd, wedi helpu i gysoni partneriaid a meithrin ymddiriedaeth. Ystyriwyd bod cyfathrebu clir a chyd-ddealltwriaeth o brosesau comisiynu yn hanfodol i gynnal y cysylltiadau hyn.

Mae llwyddiant gweithredol yn dibynnu ar gydbwyso goruchwyliaeth genedlaethol ag ymreolaeth leol. Roedd y cyfranogwyr yn eiriol dros ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gwell rhannu data a pharhad gofal o'r carchar i'r gymuned. Awgrymwyd modelau cyllido hyblyg, gan gynnwys cyllidebau cyfun a dulliau sy'n seiliedig ar grantiau, i gefnogi arloesedd ac ymgysylltu â darparwyr llai a gellid eu mabwysiadu fel sydd wedi digwydd ym Manceinion Fwyaf. Nodwyd bod protocolau clir, rheoli contractau'n gymesur a grymuso staff yn bwysig er mwyn darparu gwasanaethau prawf effeithiol a chynaliadwy yng Nghymru.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod model llywodraethu priodol sy'n darparu goruchwyliaeth strategol yn ogystal â chaniatáu ymatebolrwydd lleol a dyrannu adnoddau'n deg yn hanfodol. Mae angen cydbwysedd rhwng goruchwyliaeth weithredol genedlaethol ac ymreolaeth leol i sicrhau bod lleisiau pawb dan sylw, gan gynnwys dioddefwyr a phobl ar brawf, yn cael eu clywed.

Mae heriau strwythurol sy’n benodol i Gymru ar draws y system cyfiawnder troseddol yn parhau ac mae angen rhoi sylw iddynt. Mae’r rhain yn cynnwys diffyg carchar i fenywod, yr uchelgais i sefydlu canolfan breswyl i fenywod, a’r angen am well mecanweithiau casglu data a rhannu data sy’n benodol i Gymru rhwng gwasanaethau.

Ystyriwyd bod defnyddio darparwyr trydydd sector yn ffordd bosibl o leihau’r risgiau o ansicrwydd gwleidyddol a ‘phoblyddiaeth gosbol’ sy’n effeithio ar wasanaethau prawf. Fodd bynnag, byddai angen i natur tymor byr presennol y cyllid ar gyfer darparwyr trydydd sector gael ei ddisodli gan gyllid tymor hwy a mwy sefydlog.

Mae'r ffactorau llwyddiant ar gyfer Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yng Nghymru yn cynnwys llywio drwy dirwedd gymhleth o ddiwylliannau llywodraethu, daearyddiaeth a sefydliadol, gan gynnwys cyfathrebu ar draws gwasanaethau mewn sefydliadau mwy. Er mwyn goresgyn yr heriau hyn, mae angen cyfuniad o ddiwygiadau strwythurol, arferion cynhwysol a strategaethau meithrin perthnasoedd. Ar hyn o bryd, mae’n ymddangos bod y rhai a gyfwelwyd yn cytuno bod angen datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drwy ddechrau ar raddfa fach, a all helpu i oresgyn heriau a mireinio'r model gweithredu.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynrychioli darn sylweddol o waith o'i gymharu â chytundebau cydweithredol (sy'n aml yn anffurfiol ac ar sail ad hoc), partneriaethau cynghreiriau a mathau eraill o weithio mewn partneriaeth yn lleol. Bydd datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd yn dibynnu ar ymrwymiad a chefnogaeth uwch bartneriaid. Fodd bynnag, mae manteision posibl Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sylweddol, gan ragori ar fanteision trefniadau anffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad mwy ffurfiol a risg a rennir ymysg partneriaid, cyfleoedd ar gyfer datblygu strategol a lleol yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr gwasanaeth, a mecanwaith ar gyfer mwy o ymreolaeth i weithlu’r gwasanaeth prawf weithredu atebion arloesol. Gallai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd helpu i ailgydbwyso ymreolaeth ar gyfer staff rheng flaen y gwasanaeth prawf a darparwyr gwasanaethau, yn ogystal â chynnig ymrwymiad cyhoeddus mwy ffurfiol i weithio mewn partneriaeth â’r farchnad gymysg gyda pharamedrau clir a thryloyw. Ar ôl cytuno'n llwyddiannus ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar sail gydweithredol, credir ei fod yn debygol o fod yn llai agored i newid gwleidyddol neu newid o ran staff, heb eithrio ailadrodd pellach, diwygio gwasanaethau, na datganoli yn nes ymlaen.

# Rhestr argymhellion

## Llywodraethu

- Sefydlu fframwaith llywodraethu clir gyda rolau a chyfrifoldebau diffiniedig yn gynnar yn y broses ddatblygu drwy drafodaeth dryloyw, y gellir ei ailadrodd ar sail dysgu wrth i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei roi ar waith.
- Dylai mecanweithiau llywodraethu fod yn gymesur â'r partneriaethau, y dulliau gweithredu a'r canlyniadau a ddymunir, a'u galluogi. Pan fydd y mecanweithiau hyn ar waith, dylid eu profi a'u haddasu lle bo angen i sicrhau eu bod yn cyflawni'r nod hwn.
- Ymgorffori gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â blaenoriaethau a gofynion y gwasanaeth. Adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus presennol a chynnwys partneriaid statudol fel yr heddlu, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ochr yn ochr â darparwyr trydydd sector a phobl sydd â phrofiad bywyd.
- Meithrin cydbwysedd rhwng goruchwyliaeth weithredol genedlaethol ac ymreolaeth leol, gan gydnabod y bydd angen cydbwyso cysondeb cenedlaethol â hyblygrwydd i ddiwallu anghenion rhanbarthol a gwledig.
- Sicrhau bod lleisiau pawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys dioddefwyr a phobl ar brawf, yn cael eu clywed.
- Dylai llywodraethu ar lefel genedlaethol gynnwys y llofnodwyr sy'n angenrheidiol ar gyfer diwygiadau i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau partneriaeth, gydag ymarferwyr prawf yn ymddiried mewn awdurdodau dirprwyedig a llofnodwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

## Perthynol

- Adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus presennol drwy ddod â'r holl randdeiliaid at ei gilydd yn ystod y cam datblygu i sefydlu gweledigaeth a nodau ar y cyd, gyda chydberchnogaeth ar ganlyniadau.
- Creu sianeli cyfathrebu clir rhwng gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth ar y cyd a chryfhau gweithio mewn partneriaeth.
- Meithrin cydweithio drwy fecanweithiau fel secondiadau, rolau pontio, a 'broceriaid gonest'.
- Dechreuwch gyda meysydd ffocws llai (ee carfan benodol o bobl neu thema drawsbynciol fel cyflogadwyedd neu ddigartrefedd) i brofi'r dull a chael cefnogaeth gan nifer o bartneriaid.

- Gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd ac egwyddorion cyffredin, gan gynnwys blaenoriaethu adsefydlu.
- Ystyried cynnig y trefniant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel dewis yn hytrach na gofyniad gorfodol, er mwyn annog cydweithio gwirioneddol.

**Gweithredol**

- Sicrhau bod dulliau rheoli contractau a chaffael yn caniatáu digon o hyblygrwydd i gefnogi cyflenwyr trydydd sector lleol, gan gadw fframwaith goruchwylio ac atebolrwydd cadarn ar yr un pryd.
- Cynnwys mudiadau trydydd sector yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Negodi a sefydlu Cytundebau Rhannu Gwybodaeth fel rhan o broses ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gefnogi'r gwaith o rannu data sy'n benodol i Gymru rhwng asiantaethau, galluogi personoli a pharhad gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr prawf, a chefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Galluogi mwy o ymreolaeth i staff wella gwasanaethau a chefnogi staff i ddarparu atebion lleol, er enghraifft caniatáu iddynt ddewis y darparwr lleol cywir yn hytrach na gweithredwyr cenedlaethol neu ranbarthol.
- Sicrhau bod strategaeth leol a blaenoriaethau cyflawni yn cael eu llywio gan ddata cyfiawnder troseddol sy'n benodol i Gymru.
- Mapio'r nifer o fannau cyswllt sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws gwahanol asiantaethau i integreiddio llwybrau a dangos sut gallai gwasanaethau alinio.
- Datblygu strategaeth gyllido dros sawl blwyddyn dryloyw ar gyfer gwasanaethau prawf sy’n ystyried blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, cyfyngiadau modelau comisiynu presennol ledled y DU, a’r ‘ymylon garw’ sy’n cael eu creu gan ffiniau llywodraethu gwahanol.
- Archwilio modelau cyllido hyblyg, cyllid cyfun a dulliau sy'n seiliedig ar grantiau i wneud cyllid yn fwy hygyrch i ddarparwyr llai yn y trydydd sector.
- Rhoi mwy o bwyslais gyllidebau buddsoddi rhagarweiniol ac ailfuddsoddi unrhyw arbedion mewn rhaglenni eraill yng Nghymru, yn hytrach nag mewn meysydd a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU.

# Cyfeiriadau

Gauke, D. (2025). **Independent Sentencing Review: Final report and proposals for reform (Part 2).** Cyrchwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/media/682d8d995ba51be7c0f45371/independent-sentencing-review-report-part_2.pdf**

GOV.UK. (dim dyddiad). **About the Probation Service**. Cyrchwyd o: **https://www.gov.uk/government/organisations/probation-service/about**

Y Swyddfa a Gartref a Mahmood, S. (2025). **Police and crime commissioners to be scrapped**. Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth y DU. Cyrchwyd o: **https://www.gov.uk/government/news/police-and-crime-commissioners-to-be-scrapped**

Arolygiaeth Prawf EF. (2025). **"Major shortfalls" found in national arrangements of the Probation Service.** Cyrchwyd o: **https://hmiprobation.justiceinspectorates.gov.uk/news/major-shortfalls-found-in-national-arrangements-of-the-probation-service/**

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2020). **A Draft Target Operating Model for the Future of Probation Services in England and Wales**. Cyrchwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/873093/A_Draft_Target_Operating_Model_for_the_Future_of_Probation_Services_in_England_and_Wales__in_English_.pdf**

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2021). **Probation Reform Programme: The Target Operating Model for probation services in England & Wales**. Cyrchwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1061047/MOJ7350_HMPPS_Probation_Reform_Programme_TOM_Accessible_English_LR.pdf**

Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. (2024). **Adroddiad Terfynol: Ionawr 2024**. Cyrchwyd o: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-terfynol.pdf**

Irranca-Davies, H. AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. (2025). **Datganiad Ysgrifenedig: Paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder.** Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: **https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-paratoi-ar-gyfer-datganoli-cyfiawnder**

Kay, C. (2016). **Good cop, bad cop, both? Examining the implications of risk based allocation on the desistance narratives of intensive probationers.** Probation Journal, 63(2), tt.162-168.

Y Blaid Lafur. (2022). **A New Britain: Renewing our Democracy and Rebuilding our Economy**. Cyrchwyd o: **https://labour.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/Commission-on-the-UKs-Future.pdf**

Y Blaid Lafur. (2024). **Change – The Labour Party Manifesto 2024**. Cyrchwyd o: **https://labour.org.uk/change/**

Leveson, B. (2025). **Independent Review of the Criminal Courts: Part 1**. Cyrchwyd o: **https://www.gov.uk/government/publications/independent-review-of-the-criminal-courts-part-1**

Yr Arglwydd Timpson. (2025). **Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Sesiwn: Y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru: Sesiwn graffu weinidogol 1**, 14 Gorffennaf 2025. Cyrchwyd o: **https://record.senedd.wales/Committee/15520**

Maidment, N. (2022). **What does the launch of grants mean for probation services in the voluntary sector?** CLINKS. Cyrchwyd o: **https://www.clinks.org/community/blog-posts/what-does-launch-grants-probation-services-mean-voluntary-sector**

Millings, M., Burke, L., a Surridge, E. (2025). **A fork in the road: Probation unification in England and Wales two years on**. Probation Journal cyfrol 72 (3) tt. 256-273. Cyrchwyd o: **https://doi.org/10.1177/02645505241303755**

Napo. (2023). **First Minister to give speech to trade union members.** Cyrchwyd o: **https://www.napo.org.uk/first-minister-give-speech-trade-union-members**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2019). **Transforming Rehabilitation: Progress review.** Cyrchwyd o: **https://www.nao.org.uk/reports/transforming-rehabilitation-progress-review/**

Notman, G., Price, J., a Tilley, H. (2024). **Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig: Rhan 2: Cymharu gwledydd**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: **https://wcpp.org.uk/cy/report/adeiladu-gwasanaeth-prawf-cymreig/**

Phillips, J.; Albertson, K.; Collinson, B.; Fowler, A. (2020). **Delivering desistance – focussed probation in community hubs: Five key ingredients**. Probation Journal. Cyfrol 67 (3) tt. 264-282

Price, J., Notman, G., a Tilley, H. (2024). **Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig: Rhan 1: Modelau a llwybrau.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://wcpp.org.uk/cy/report/adeiladu-gwasanaeth-prawf-cymreig/

Y Gwasanaeth Prawf. (2021). **Probation Service England and Wales regional maps**. Cyrchwyd o: https://www.gov.uk/government/publications/national-probation-service-england-and-wales-divisions-map

Redgrave, H., Tipple, C., a Mulheirn, I. (2019). **Restoring order and rebuilding communities: the need for a new national crime plan.** Tony Blair Institute for Global Change. Cyrchwyd o: https://institute.global/insights/geopolitics-and-security/restoring-order-and-rebuilding-communities-need-new-national-crime-plan

Rowland, C. (2024a). **Fixing public services: The criminal justice system**. Institute for Government. Cyrchwyd o: https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/fixing-public-services-labour-government/criminal-justice-system

Rowland, C. (2024b). **The crisis in prisons**. Institute for Government. Cyrchwyd o: https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/crisis-prisons

Thomas Commission. (2019). **Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru**. Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf

Tidmarsh, M. (2020). **The probation service in England and Wales: A decade of radical change or more of the same?** European Journal of Probation, 12(2), tt.129-146.

Senedd y DU. (2021). **Transforming Rehabilitation and the Probation Reform Programme**. Cyrchwyd o: https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmjust/285/28504.htm#footnote-182

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010). **Canllawiau ar gyfer Craffu ar Faterion sy'n ymwneud â Throseddu ac Anhrefn – Cymru: Rhoi Adran 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ar waith**. Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/300110crimecy.pdf

Swyddfa Archwilio Cymru. (2016). **Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Hydref 2016** Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyrchwyd o: https://www.audit.wales/sites/default/files/Community-Safety-2016-Cymraeg_6.pdf

Webster, R. (2025). **Probation service failing at a national level**. Cyrchwyd o: https://www.russellwebster.com/probation-service-failing-at-a-national-level/

Llywodraeth Cymru. (2017a). **Gweithio gyda'n gilydd i greu cymunedau mwy diogel: fframwaith ar gyfer partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru**. Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gweithio-gydan-gilydd-i-greu-cymunedau-mwy-diogel.pdf

Llywodraeth Cymru. (2017b). **Adroddiad Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel. Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru: Rhagfyr 2017.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gweithio-gydan-gilydd-i-greu-cymunedau-mwy-diogel.pdf

Llywodraeth Cymru. (2019). **Y Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru**. Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/glasbrint-ar-gyfer-troseddwyr-benywaidd.pdf

Llywodraeth Cymru. (2022). **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru:** Mai 2022. Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru-mai-2022.pdf

Llywodraeth Cymru. (2024). **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru:** Adroddiad cynnydd 2024. Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru-adroddiad-cynnydd-2024-html

# Atodiad 1: Astudiaethau achos llywodraethu

## Gweithio mewn partneriaeth a llywodraethu ym Manceinion Fwyaf

Mae gweithio mewn partneriaeth yn elfen graidd o ddull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Manceinion Fwyaf ac yn rhan o'r strategaeth i allu mynd i'r afael yn well â blaenoriaethau a gofynion yn y rhanbarth ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

> **'Roedd gweithio mewn partneriaeth wedi'i gynnwys yn y gwaith o lywodraethu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar sail 'rydyn ni i gyd yn cytuno neu dydyn ni ddim yn ei wneud'... mae busnes y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn llinyn aur ar draws yr holl lywodraethu cyfiawnder rhanbarthol a diwygio'**

Y prif fwrdd llywodraethu yw'r Weithrediaeth Adsefydlu Cyfiawnder sy'n cynnwys uwch staff arwain o'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, yr heddlu, Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, Cyngor Dinas Manceinion, ac arweinwyr heddlu a throseddu yn yr awdurdodau lleol yn ardal Manceinion Fwyaf. Mae Byrddau Lleihau Aildroseddu lleol yn eistedd yn uniongyrchol o dan y Weithrediaeth Adsefydlu Cyfiawnder ar lefel fwy rhanbarthol.

Mae systemau llywodraethu wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer darparwyr yn y gymuned ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu Integredig Manceinion Fwyaf. Mae'n ofynnol i ddeiliaid contractau gael 'swyddogaeth integreiddio', sef yr amod i'r sefydliad nid yn unig allu darparu gwasanaethau ond hefyd allu cydlynu a rheoli darparwyr eraill. Un enghraifft yw Big Life, sef sefydliad trydydd sector sy'n gweithredu o dan 'fodel ymbarél', sy'n cydlynu'r ddarpariaeth ar draws deg partner canolfan dan gontract ar gyfer y Canolfannau Llesiant ym Manceinion Fwyaf.

## Defnydd Manceinion Fwyaf o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel adnodd ailadroddol ar gyfer diwygio strwythurol

Mae model Manceinion Fwyaf o wasanaethau cyhoeddus unedig yn gosod gwasanaethau cyfiawnder troseddol o fewn teulu ehangach o wasanaethau cyhoeddus integredig sy'n galluogi dylunio atebion system gyfan i ymddygiadau a phroblemau sy'n aml yn gymhleth. At ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, disgrifir egwyddorion diwygio gwasanaethau cyhoeddus fel rhai sy'n helpu i ddylunio a darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu.

**‘Nid dim ond Bwrdd Cyfiawnder ydyw, mae yna agwedd dechnegol [a] gallu i ddiwygio’n strategol hefyd.’ (Unigolyn a gafodd ei gyfweld)**

Disgrifir model Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Manceinion Fwyaf fel ‘un Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyffredinol gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi trefniadau cyd-gomisiynu’. Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Manceinion Fwyaf yn wreiddiol yn 2016, a llofnodwyd fersiwn ddilynol yn 2022. Disgrifir y rhain fel cytundebau ailadroddol sydd wedi'u lleoli yn y cyd-destun rhanbarthol, gan adlewyrchu dyfnder cynyddol gweithio mewn partneriaeth yn ogystal ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Roedd gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gwreiddiol 2016 ddau gytundeb wedi'u hatodi iddo a oedd yn ymdrin â dau faes allweddol o gyd-gomisiynu: Roedd Gwasanaeth Adsefydlu Integredig Manceinion Fwyaf a’r Gwasanaeth Llety Cymunedol Haen 3 (CA3) yn cynnwys agweddau cyd-ddylunio a chyd-gomisiynu ac yn canolbwyntio ar y gymuned. Mae’r gwasanaethau hyn yn gyfannol ac yn drawsbynciol, ac yn cwmpasu anghenion ‘drwy’r gât’ defnyddwyr gwasanaeth prawf sy’n symud o’r ddalfa i’r gymuned. Mae’r rhain yn amrywio o lety, i gymodi teuluol, i gyngor ar gyllid a dyled, iechyd, cyflogadwyedd ac iechyd meddwl.

Roedd ail fersiwn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys mesurau i ymdopi â’r galw presennol am wasanaethau yn ogystal â diwallu'r galw cynyddol a threfniant cyllido mwy lleol. Dim ond i gyllidebau Gwasanaeth Adsefydlu Integredig Manceinion Fwyaf a CA3 y mae'r cyllid datganoledig y cytunwyd arno yn berthnasol, ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth statudol na chyllid datganoli cyfiawnder ehangach.

Dywedir bod gallu symud arian o gwmpas ar sail anghenion lleol a gallu prisio’n wahanol i’r hyn a geir o dan y Fframwaith Dynamig ar gyfer gwasanaethau prawf a gomisiynir yn ganolog sy’n defnyddio sgoriau ‘isel, canolig ac uchel’ yn helpu i ymgysylltu mwy â phartneriaid yn y trydydd sector a chynnig dull gweithredu mwy personol.

**‘Roedd peidio â chael yr hawliau angenrheidiol i symud arian o gwmpas i gyllidebau gwahanol yn her allweddol, felly nawr mae’r grant Adran 31 [newydd] yn helpu gyda hynny. Mae’n ymuno â chyllidebau gwasanaethau Iechyd a Llety.’ (Unigolyn a gafodd ei gyfweld)**

Mae Manceinion Fwyaf yn dweud bod ‘llawer o ddysgu’ ar y Fframwaith Dynamig a gallu cynnig darpariaeth gwasanaeth mwy personol a chyfannol a mabwysiadu dull mwy ‘dynol’ gyda mwy o ‘ryddid a hyblygrwydd haeddiannol’ y tu allan i’r model Fframwaith Dynamig wedi bod yn un o fanteision allweddol strwythur mwy lleol.

## Osgoi gormod o lywodraethu wrth gyd-gomisiynu a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Disgrifiodd un ymarferydd prawf presennol y system gomisiynu fel un hynod wrth-risg, gan nodi ar raddfa o un i ddeg, y byddai’r sefydliad ar frig y raddfa. Roedd yn cydnabod bod rhywfaint o bwyll yn ddealladwy wrth ddelio ag arian cyhoeddus, ond roedd yn teimlo bod y system wedi mynd yn rhy gymhleth. Cymerodd ddwy flynedd i gymeradwyo menter dibyniaeth ac adferiad 2020 mewn ardal heb ei datganoli yn y DU, gan adael staff prawf ac awdurdodau lleol yn cwestiynu’r oedi dro ar ôl tro. Roedd newidiadau aml i staff o fewn timau comisiynu awdurdodau lleol yn golygu bod yn rhaid ailadeiladu perthnasoedd o'r newydd bob tro y byddai staff newydd yn cyrraedd, a oedd yn amharu ar y gwaith.

Pwysleisiodd yr ymarferydd fod y dull comisiynu yn aml yn blaenoriaethu nodi problemau yn hytrach na galluogi atebion.

Cododd anawsterau ychwanegol pan nad oedd awdurdodau lleol wedi dilyn y rheolau caffael a ddisgwylid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Hyd yn oed pan mai dim ond ychydig o gyllid yr oedd y gwasanaeth prawf yn ei gyfrannu at gontract llawer mwy, mynegwyd pryderon y gallai fod her gyfreithiol, a oedd yn creu rhwystr sylweddol. Yn y pen draw, roedd yn rhaid i'r cyfarwyddwr prawf rhanbarthol ar y pryd dderbyn yn ffurfiol yr holl risg gysylltiedig cyn y gallai'r gwaith fynd rhagddo.

# Atodiad 2: Astudiaethau achos perthynol

**Darpariaeth gyfunol a rhannu cyfrifoldeb**

Mae lleoli cyllid ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau prawf a galluogi mwy o hyblygrwydd i symud arian ar draws gwahanol gyllidebau wedi galluogi Manceinion Fwyaf i ddarparu rhaglenni 'cyfunol' sy'n canolbwyntio ar themâu penodol. Un enghraifft yw mynd i'r afael â digartrefedd, lle darparwyd gwasanaethau drwy gyfuniad o fentrau fel y cynllun 'A Bed for Every Night', gwasanaethau Awdurdod Cyfun Manceinion, Gwasanaethau Tai, a llety dros dro Haen 3 y Gwasanaeth Llety Cymunedol yn ogystal â sefydliadau cymunedol fel cynlluniau Tai yn Gyntaf a Chysgu Allan. Dywedir fod cyflawni'r gwaith o fynd i'r afael â digartrefedd yn enghraifft o 'ymatebolrwydd y system gyfan' yn gweithio'n dda gyda'i gilydd gan eu bod yn gweithredu o fewn yr un systemau, ac mae'r cyfrifoldebau cyllidebol lleol yn galluogi'r math hwn o wasanaethau cyfunol i weithio'n well.

**Cyd-gomisiynu o ran canolfannau**

Eglurodd ymarferydd fod canolfannau'n cael eu hystyried yn fuddiol ar y cyfan, yn enwedig o ran cefnogi cydymffurfiaeth a gwella ymgysylltiad. Nododd fod pobl yn aml yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ymweld â chanolfan na swyddfa'r gwasanaeth prawf, a oedd wedi cyfrannu at lefelau cyfranogiad uwch. Er bod gan ganolfannau gyfyngiadau, yn enwedig yng nghyswllt unigolion yr aseswyd eu bod risg uchel neu unigolion sy'n anaddas ar gyfer man cymunedol a rennir, roeddent yn dal i gael eu hystyried yn rhai sy'n gweithio'n dda yn gyffredinol ac sy'n cynnig amgylchedd mwy croesawgar.

Pwysleisiodd yr ymarferydd bwysigrwydd meithrin perthnasoedd i annog asiantaethau eraill i weithredu o'r canolfannau. Roedd yn tynnu sylw at yr enghraifft ym Manceinion Fwyaf, lle mae darparwr arweiniol yn rheoli pob canolfan o dan un contract, gan greu strwythur ymbarél sy'n dod ag asiantaethau lleol at ei gilydd. Disgrifiwyd y model hwn fel trefniant effeithiol a chefnogol.

Dymuna’r awduron ddiolch i **Rob Ford** am ei gyfraniadau golygyddol i’r adroddiad hwn.

## Manylion yr awduron

Roedd **Dr Celia Netana** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Jack Price** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Dr Helen Tilley** yw Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer (Llywodraeth Cymru) Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Ioana Filipas** yn Brentis Ymchwilydd yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Dr Jack Price**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae’r adroddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre
for Public Policy
Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru